Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 95/2025

Dyddiad cyhoeddi: 10/10/2025

# Gwerthusiad o Cymru’n Gweithio mewn carchardai

This document is also available in English.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-484-1

Gwerthusiad o Cymru’n Gweithio mewn carchardai

Awduron: Maisie Simmonds, James Lundie, Sean Homer and Jessica Steventon

Adroddiad Ymchwil Llawn:  Simmonds, M; Lundie, J; Homer, S; Steventon, J. (2025) Gwerthusiad o Cymru’n Gweithio mewn carchardai. . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 95/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-cymrun-gweithio-mewn-carchardai

Safbwyntiau’r ymchwilydd sy’n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Eloise Gowing

Uwch Swyddog Ymchwil ar gyfer Addysg a Sgiliau Ôl-16

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQE-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl o’r cynnwys


Rhestr o dablau ... 2
Rhestr o ffigurau ... 3
Rhestr termau ... 4
1. Cyflwyniad/cefndir ... 5
2. Methodoleg ... 13
3. Adolygiad llenyddiaeth ... 18
4. Dadansoddi’r wybodaeth fonitro ... 21
5. Adborth gan gynghorwyr Cymru’n Gweithio ... 45
6. Casgliadau ... 59
7. Argymhellion ... 62
Cyfeiriadau ... 63
Atodiad A: Protocol adolygu llenyddiaeth ... 65
Atodiad B: Gwybodaeth dechnegol yr wybodaeth fonitro ... 68
Atodiad C: Cynllun cyfweliad ... 72

**Rhestr o dablau**


Tabl 1.1: Carchardai – categori, capasiti gweithredol a phoblogaeth....................................2
Tabl 1.2: Carchardai - Adnodd staff Cymru'n Gweithio ..........................................................9
Tabl 1.3: Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cymru'n Gweithio ......................................10
Tabl 4.1: Mae Tabl 4.1 yn dangos sianel rhyngweithiadau un-i-un yn ôl blwyddyn..............23
Tabl 4.2: Cyfran y rhyngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un bob blwyddyn a gyflwynwyd gan gynghorydd a hyfforddwr cyflogadwyedd yn CEF Caerdydd a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc ..............................................................................................26
Tabl 4.3: Nodweddion demograffig carcharorion sy'n cyrchu cyfnodau o gymorth ..............28
Tabl 4.4: Statws anabledd carcharorion ar gyfer cyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn.........29
Tabl 4.5: Lefel cymhwyster uchaf carcharorion ar gyfer cyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn ...........................................................................................................................31
Tabl 4.6: Iaith a ffefrir (ar lafar ac ysgrifenedig) ar gyfer cyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn ...........................................................................................................................32
Tabl 4.7: Atgyfeiriadau am gyfnodau o gymorth yn ôl y carchar a'r flwyddyn ......................34
Tabl 4.8: Cyfran y cyfnodau o gymorth gan bob carchar lle roedd atgyfeiriad wedi'i wneud i lwybr.................................................................................................................37
Tabl 4.9: Dadansoddiad is-sampl - statws chwe mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth ...........40
Tabl 4.10: Cyfnodau o gymorth yn y carchar wedi'u troi'n gyfnodau dilynol o gymorth yn ôl grŵp oedran ......................................................................................................42
Tabl 4.11: Cyfnodau o gymorth mewn carchar wedi'u troi'n gyfnodau dilynol o gymorth yn ôl rhyw.............................................................................................................43
Tabl 4.12: Cyfnodau o gymorth mewn carchar wedi'u troi'n gyfnodau dilynol o gymorth yn ôl anabledd ....................................................................................................44
Tabl B.1: Nifer y cyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn .........................................................69
Tabl B.2: Nifer y rhyngweithiadau yn ôl blwyddyn................................................................70
Tabl B.3: Statws 6 mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth - categorïau .....................................71

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 4.1: Cyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn ........ 22
Ffigur 4.2: Cyfran y rhyngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un yn ôl y carchar a’r flwyddyn. ........ 24
Ffigur 4.3: Yr amser canolrifol fesul rhyngweithiad wyneb yn wyneb un-i-un (munudau) yn ôl y carchar a’r flwyddyn........ 25
Ffigur 4.4: Lefel cymhwyster uchaf carcharorion ar gyfer cyfnodau o gymorth ........ 30
Ffigur 4.5: Atgyfeiriadau ar gyfer cyfnodau o gymorth yn ôl y carchar ........ 33
Ffigur 4.6: Mae Ffigur 4.6 yn dangos cyfran y cyfnodau o gymorth lle roedd atgyfeiriad wedi'i wneud i lwybr ........ 35
Ffigur 4.7: Cyfran y cyfnodau o gymorth bob blwyddyn lle roedd atgyfeiriad wedi'i wneud i lwybr........ 36
Ffigur 4.8: Dadansoddiad is-sampl - statws chwe mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth ........ 39

**Rhestr termau**

**CIAG**
Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfa
**DWP**
Yr Adran Gwaith a Phensiynau
**HMPPS**
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi
**KAS**
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol
**KPI**
Dangosydd Perfformiad Allweddol
**P2E**
Llwybrau at Gyflogaeth
**PLA**
Cyfrifon Dysgu Personol
**PSI**
Gwybodaeth y Gwasanaeth Carchardai
**ReAct**
Mae hyn yn cynnwys ReAct III, Access a ReAct Plws
**RTA**
Dadansoddiad Thematig Atgyrchol
**SLA**
Cytundeb Lefel Gwasanaeth
**VPU**
Uned Carcharorion sy'n Agored i Niwed

# 1. Cyflwyniad/cefndir

## Cefndir

1.1 Mae pobl yn y system cyfiawnder troseddol yn aml yn rhai o'r bobl fwyaf difreintiedig mewn cymdeithas. Mae aildroseddu gan y rhai a ryddhawyd o'r ddalfa yn costio tua £15 biliwn y flwyddyn i gymdeithas yn y DU [troednodyn 1].Mae Cynllun Lleihau Aildroseddu Cymru 2022-25 yn nodi bod pobl sy'n gadael carchardai sy'n cael swydd hyd at naw pwynt canran yn llai tebygol o aildroseddu, sy'n eu helpu i fod yn annibynnol a chyfrannu at y gymdeithas ehangach. Gall buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant mewn carchardai gynyddu'r tebygolrwydd y gall unigolyn ddod o hyd i waith cynaliadwy ar ôl cael ei ryddhau, a fydd yn helpu cymunedau mwy diogel, lleihau'r baich cost sy'n gysylltiedig ag aildroseddu a lleihau nifer y dioddefwyr troseddau yn y dyfodol.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru cynllun cyflogadwyedd a sgiliau yn nodi'r weledigaeth ar gyfer cyflogaeth yng Nghymru yn ogystal â'i hymrwymiad i gefnogi cyfleoedd dysgu carcharorion try archwilio'r gwaith o ddatblygu cymorth dwys wedi'i dargedu i'r rhai sydd i fod i adael yr ystâd carchardai yng Nghymru ac y nodwyd mai nhw sydd â'r angen mwyaf. Mae hefyd yn anelu at wneud y Warant i Bobl Ifanc [troednodyn 2] yn hygyrch i'r rhai mewn carchardai.

1.3 Er bod addysg, cyflogadwyedd a sgiliau yn bwerau datganoledig, nid yw cyfiawnder wedi'i ddatganoli. Felly, Llywodraeth Cymru sy'n ariannu darpariaeth addysg, cyflogadwyedd a sgiliau a ddarperir yn yr ystâd carchardai yng Nghymru trwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS).

1.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â HMPPS Cymru, carcharorion a phobl sy'n gadael carchardai, darparwyr addysg a sefydliadau'r trydydd sector i gyd-ddylunio 'Gwell Dysgu, Gwell Cyfleoedd: darparu cyfleoedd dysgu a sgiliau mewn carchardai' [troednodyn 3]. Mae'r polisi hwn yn nodi'r weledigaeth i 'ddarparu amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol mewn carchardai sy'n ennyn diddordeb unigolion ac yn eu hysbrydoli, gan eu helpu i fod yn barod am swyddi a chael a chadw cyflogaeth gynaliadwy' [troednodyn 3].

1.5 Cymru'n Gweithio yw gwasanaeth cymorth diduedd, proffesiynol, gyrfaoedd a chyflogadwyedd cenedlaethol Cymru, sydd ar gael i bawb sy'n 16 oed a hŷn, ac sy'n byw yng Nghymru. Trwy'r gwasanaeth, mae cynghorwyr gyrfaoedd ar gael i

[1] Llywodraeth Cymru (2018) Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru - Addysg a Chyflogaeth
[2] Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn rhoi cymorth i bawb rhwng 16 a 24 oed, sy'n byw yng Nghymru, i gael lle mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.
[3] Llywodraeth Cymru (2024) Gwell Dysgu, Gwell Cyfleoedd: darparu cyfleoedd dysgu a sgiliau mewn carchardai

gefnogi pobl ifanc ac oedolion gyda chyngor, arweiniad a mynediad at hyfforddiant, a hynny’n rhad ac am ddim, i'w helpu i weithio neu barhau â'u gyrfa. Er mwyn cefnogi pobl mewn carchardai, mae cynghorwyr Cymru’n Gweithio yn ymgysylltu â charcharorion 12 wythnos cyn iddynt gael eu rhyddhau ac maent wedi'u lleoli yn y Hybiau Cyflogadwyedd. Mae Hybiau Cyflogadwyedd [troednodyn 4] yn "siop un stop" ar gyfer carcharorion, lle mae gwahanol asiantaethau wedi'u lleoli mewn un lle fel Cymru’n Gweithio, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), tai, ac ati. Mae'r Hybiau yn galluogi partneriaid cyflogaeth i gydweithio i ddarparu cyngor a gwasanaethau sydd wedi'u teilwra, megis cyngor gyrfa a CVs, i gefnogi carcharorion ar eu taith gyflogaeth.

1.6 Cyfanswm nifer y Cymry yn y carchar (yn seiliedig ar eu cyfeiriad cartref) oedd 5,034 yn 2023 – sef cynnydd o 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y rhan fwyaf o Gymry yn yr ystâd carchardai yng Nghymru yn 2023 yn cael eu cadw yn CEF Parc (38%), ac yna CEF Berwyn (20%), CEF Caerdydd (20%), CEF Abertawe (10%), CEF Brynbuga (7%) a CEF Prescoed (5%). Roedd carcharorion eraill o Gymru (28%) yn cael eu cadw mewn carchardai yn Lloegr [troednodyn 5].

1.7 Nid oes carchardai i fenywod yng Nghymru, felly mae carcharorion benywaidd o Gymru yn cael eu carcharu yn Lloegr. Yn 2023, roedd 244 o fenywod o Gymru yn y carchar. Cafodd y rhan fwyaf (72%) o garcharorion benywaidd o Gymru eu rhoi yn CEF Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw (141) a CEF Styal yn Swydd Gaer (35).

[4] Hybiau Cyflogaeth - Rhwydwaith Dyfodol Newydd

[5] Jones, R. (2024) 2023 Factfile: Prisons and sentencing in Wales

**Tabl 1.1: Carchardai – categori, capasiti gweithredol a phoblogaeth**

| Carchar | Categori | Capasiti Gweithredol (Mawrth 2024) | Cyfanswm y boblogaeth (Mawrth 2024)[6] |
|---|---|---|---|
| CEF Caerdydd | Categori B: carchar ailsefydlu lleol sy'n dal gwrywod mewn oed (wedi'u remandio, heb eu dedfrydu, eu dedfrydu a'u galw'n ôl) a wasanaethir gan lysoedd yn yr ardal leol. | 775 | 717 |
| CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc | Categori B: carchar lleol (sy'n cael ei redeg yn breifat) sy'n dal gwrywod mewn oed sydd wedi'u cael yn euog, ac oedolion ifanc (18 i 20), a phobl ifanc (16 i 17) sydd wedi'u remandio a'u cael yn euog. | 1,825 | 1,791 |
| CEF Abertawe | Categori B ac C: carchar ailsefydlu lleol sy'n dal gwrywod mewn oed (wedi'u remandio, heb eu dedfrydu, eu dedfrydu a'u hadalw) sy;n gwasanaethu llysoedd yn yr ardal leol. | 452 | 406 |
| CEF Berwyn | Dedfrydu categori C: gwrywod mewn oed a gwrywod mewn oed categori B ar remánd. | 2,000 | 1,995 |

[6] Mae'r golofn hon yn cyfeirio at gyfanswm poblogaeth y carcharorion ym mhob carchar – gan gynnwys carcharorion o Gymru a'r rhai nad ydynt yn dod o Gymru. Mae hyn yn cymharu â pharagraffau 1.6 a 1.7 sy'n cyfeirio at nifer y Cymry ym mhob carchar (yn seiliedig ar eu cyfeiriad cartref).

| | | | |
|---|---|---|---|
| CEF Brynbuga | Categori bach C: carchar hyfforddi sy'n delio i raddau helaeth â throseddwyr a gafwyd yn euog o dan Ddeddf Troseddwyr Rhyw 1997. | 536 | 526 |
| CEF Prescoed | Carchar agored i wrywaidd mewn oed sy'n rheoli carcharorion categori D. | | |
| CEF Eastwood Park | Carchar categori caeëdig a sefydliad troseddwyr ifanc i fenywod. | 376 | 352 |
| CEF Styal | Carchar categori caeëdig i fenywod. | 454 | 419 |

Ffynonellau: Prifysgol Caerdydd[5]a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder[7]
Mae CEF Brynbuga a CEF Prescoed yn ddau garchar ar wahân sydd wedi'u lleoli ar wahanol safleoedd sy'n cael eu rheoli fel 'endid sengl' gan HMPPS.

1.8 Mae Cymru’n Gweithio yn darparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant gyrfaoedd a chyflogadwyedd ym mhob un o'r carchardai diogel yng Nghymru, yn ogystal â CEF Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw a CEF Styal yn Swydd Gaer i garcharorion benywaidd o Gymru. Mae'r gwasanaeth yn adrodd data perfformiad yn gywir yn unol â'r fformat y cytunwyd arno i'r carchardai perthnasol, HMPPS a Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi a'i defnyddio i roi gwybod am y galw am Cymru’n Gweithio ym mhob carchar. Mae hyn er mwyn helpu i sicrhau bod yr holl garcharorion y mae eu dyddiad rhyddhau o'r carchar yn agosáu, yn elwa yn llawn o'r cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd a ddarperir iddynt.

1.9 Bu achosion o newidiadau yn y defnydd o adnoddau Cymru’n Gweithio mewn carchardai. Gweithredwyd cynnydd yn yr adnoddau yn rhai o'r carchardai ym mis Rhagfyr 2023. Er enghraifft, cynyddodd nifer y diwrnodau sydd ar gael bob wythnos o 2.50 i 5.50 yn CEF Caerdydd ac o 2.00 i 3.00 yn CEF Abertawe. Hefyd, cyflwynwyd cynghorydd gyrfaoedd dynodedig [troednodyn 8] yn CEF Styal am 0.25 diwrnod yr wythnos ym mis Mawrth 2023.

[7] Ystadegau poblogaeth carchardai - GOV.UK
[8] Mae gan gynghorwyr gyrfaoedd gymwysterau Lefel 6 mewn Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd (CIAG). Eu rôl yw darparu gwasanaethau arweiniad proffesiynol i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth cleientiaid ar gyfer cynllunio a rheoli gyrfa.

**Tabl 1.2: Carchardai - Adnodd staff Cymru'n Gweithio**

| Carchar | Nifer y diwrnodau sydd ar gael yr wythnos | | |
|---|---|---|---|
| | **Ebrill 2021 i Fawrth 2022**[9] | **Ebrill 2022 i Fawrth 2023** | **Ebrill 2023 i Fawrth 2024** |
| CEF Caerdydd | 2.50 | 2.50 | 2.50 (Ebrill i Dachwedd)<br>5.50 (Rhagfyr i Fawrth) |
| CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc | 3.00 | 3.00 | 3.00 |
| CEF Prescoed | 2.00 | 2.00 | 2.00 (Ebrill i Dachwedd)<br>3.00 (Rhagfyr i Fawrth) |
| CEF Abertawe | 2.00 | 2.00 | 2.00 (Ebrill i Dachwedd)<br>3.00 (Rhagfyr i Fawrth) |
| CEF Berwyn | 2.00 | 2.00 | 2.00 |
| CEF Brynbuga | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| CEF Eastwood Park | 0.25 | 0.25 | 0.25 |

[9] Nid oedd nifer y diwrnodau yr wythnos yn ôl carchar ar gael rhwng Ebrill 2021 a Rhagfyr 2021. Felly, mae'r ffigyrau a ddangosir yn seiliedig ar y cyfnod o Ionawr 2022 i Mawrth 2022.

| | | | |
|---|---|---|---|
| CEF Styal | 0.00 | 0.00 (Ebrill i Dachwedd)<br><br>0.25 (Mawrth) | 0.25 |

Ffynhonnell: Adroddiad DPA Cymru'n Gweithio

1.10 Amlinellir amcanion Cymru'n Gweithio ar gyfer 2023 i 24 yn y Llythyr Dyfarnu Grant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac maent yn cynnwys y canlynol:

**Tabl 1.3: Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cymru'n Gweithio**

| Gweithio o fewn y Gwasanaeth Carchardai i Oedolion | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Targed** | **Wedi'i gyflawni** |
| Cwsmeriaid mewn carchardai i gael cynnig gwasanaeth un-i-un | O leiaf 1,000 o gwsmeriaid. | 1,363 o gwsmeriaid. |
| Arolygon Boddhad Cwsmeriaid i gael eu cwblhau gyda chwsmeriaid mewn carchardai yng Nghymru | O leiaf 300 o Arolygon Boddhad Cwsmeriaid i gael eu cwblhau ar draws carchardai yn gyffredinol[10]. | Cwblhawyd 368 o Arolygon Boddhad Cwsmeriaid. |
| Cymerodd cwsmeriaid mewn carchardai ran yn yr arolwg, gan nodi eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r gwasanaeth maent yn ei gael | Isafswm o 90% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg i nodi eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r gwasanaeth maent yn ei gael. | Roedd 100% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn fodlon neu'n fodlon iawn. |

Ffynhonnell: Llythyr Dyfarnu Grant Gyrfa Cymru ac adroddiad DPA Cymru'n Gweithio

1.11 Mae amcanion eraill Cymru'n Gweithio yn cynnwys:

[10] Mae pob carchar yn gweithredu'n wahanol, felly mae Gyrfa Cymru'n gweithio gyda phob carchar i deilwra'r lefel gywir o gymorth.

- Cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) y cytunwyd arno gyda gwasanaethau prawf ledled Cymru sy'n cael eu hadnewyddu bob blwyddyn.
- Mwy o adnoddau i garchardai yn ystod 2023 i 24 a chynllunio i gynyddu hyn ymhellach yn ystod 2024 i 25 oherwydd y galw cynyddol am gymorth Cymru’n Gweithio mewn carchardai.
- Adolygu ac addasu'r cyngor a’r arweiniad a ddarperir i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac i weithio gyda'r holl bartneriaid perthnasol i gefnogi carcharorion i wneud trawsnewidiadau llwyddiannus. I'r perwyl hwn, gweithio'n strategol ac mewn partneriaeth â rhwydweithiau cymorth presennol gan gynnwys gwasanaethau carchardai a phrawf ac asiantaethau ailsefydlu.

1.12 Mae Cymru’n Gweithio yn cyd-fynd â'r saith nod llesiant cenedlaethol a rennir a ddeddfwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) [troednodyn11]. Y nod sy'n arbennig o berthnasol i'r ymchwil hon yw 'Cymru Fwy Cyfartal' (sy'n anelu at ddatblygu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau). Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod gwasanaeth Cymru’n Gweithio ar gael mewn carchardai oherwydd ei nod yw rhoi mwy o gyfle cyfartal i garcharorion fynd i mewn i'r farchnad lafur ar ôl iddynt gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned. Nod allweddol arall yw 'Cymru Ffyniannus; (sy'n anelu at ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth).

### Yr ymchwil

1.13 Nod yr ymchwil hon oedd deall yn well pa mor effeithiol yw gwasanaeth Cymru’n Gweithio mewn carchardai, gan ganolbwyntio ar sut mae'r gwasanaeth yn wahanol rhwng carchardai ac unrhyw heriau wrth ddarparu’r gwasanaeth.

### Strwythur yr adroddiad

1.14 Roedd y cyfweleion yn cyfeirio at unigolion sy'n cael cymorth mewn carchardai fel naill ai 'carcharorion', 'troseddwyr' neu 'gwsmeriaid'. O ddewis, bydd yr adroddiad yn defnyddio'r term 'carcharorion', felly bydd gwahaniaeth clir rhwng yr unigolion y mae cynghorwyr Cymru’n Gweithio yn eu helpu yn y gymuned a'r rhai mewn carchardai.

1.15 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer yr ymchwil a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn.

[11] Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Mae Pennod 3 yn darparu adolygiad llenyddiaeth byr i gynnig mewnwelediad i gyfleoedd cyflogaeth mewn carchardai.
- Mae Pennod 4 yn archwilio canfyddiadau'r dadansoddiad meintiol o wybodaeth fonitro’r gwasanaeth.
- Mae Pennod 5 yn archwilio'r themâu a dynnwyd allan o ganfyddiadau'r gwaith casglu data ansoddol.
- Mae Penodau 6 a 7 yn crynhoi'r ymchwil ac yn ystyried dyfodol Cymru’n Gweithio mewn carchardai a'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen.

## 2. Methodoleg

2.1 Ymgymerwyd ag amrywiaeth o ddulliau ymchwil wrth gyflwyno'r gwerthusiad hwn (fel y'i cyflwynir yn fyr isod). Canolbwyntiodd yr ymchwil ei sylw ar ateb pum cwestiwn ymchwil:

- I ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu fel yr amlinellir yn amcanion Cymru'n Gweithio?
- Pa heriau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu, os o gwbl?
- A yw'r heriau hyn yn wahanol yn ôl carchar?
- Sut mae atgyfeiriadau a chanlyniadau yn wahanol rhwng carchardai? Beth yw'r tueddiadau?
- Pa gyswllt sydd gan y gwasanaeth gyda sefydliadau trydydd parti, os o gwbl?

### Adolygiad llenyddiaeth

2.2 Er mwyn deall yr effaith y mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cyflogadwyedd mewn carchardai yn ei chael ar allu dilynol unigolyn i fynd i mewn i / ail-fynd i mewn i gyflogaeth, cynhaliwyd asesiad tystiolaeth cyflym o'r llenyddiaeth berthnasol. Dyma'r math mwyaf priodol o adolygiad yn yr amserlen.

2.3 Er mwyn nodi'r llenyddiaeth berthnasol, defnyddiwyd termau chwilio i hidlo peiriannau chwilio a phyrth ymchwil yn systematig. Roedd y termau ymchwil yn cynnwys: Cymru'n Gweithio, gwerthuso/arweiniad Cymru'n Gweithio , Cymru'n Gweithio mewn carchardai, a'u gwasanaethau/gwasanaethau cyflogadwyedd mewn carchardai/ canllawiau i droseddwyr/arweiniad i gyn-droseddwyr ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Defnyddiwyd hidlwyr i gyfyngu canlyniadau i gyhoeddiadau a ysgrifennwyd yn Saesneg ac a gyhoeddwyd ar ôl 2010.

2.4 Roedd y dogfennau a gynhwyswyd naill ai'n rhai academaidd neu lywodraethol. Cafodd dogfennau eu sgrinio yn erbyn y meini prawf cynhwysiant yn y protocol adolygu llenyddiaeth (Atodiad A). Ni aseswyd y dogfennau hyn ar gyfer ansawdd yn systematig; yn hytrach, defnyddiodd yr ymchwilydd ei farn ei hun ar gadarnhad a pherthnasedd y llenyddiaeth. Ar ôl i'r ymchwilydd asesu'r llenyddiaeth, cyfyngwyd hyn i gyfanswm o 20 cyhoeddiad a ystyriwyd yn ddefnyddiol i'w cynnwys.

### Dadansoddi'r wybodaeth fonitro

2.5 Cynhaliwyd dadansoddiad meintiol o wybodaeth monitro gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Roedd y data, a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru yn Microsoft Excel, ym mis Gorffennaf 2024, yn cynnwys:

1. cyfnodau o gymorth: mae staff Cymru'n Gweithio yn aml yn gweithio gydag unigolyn ar sawl achlysur; mae pob achlysur yn cael ei gofnodi fel 'cyfnod o gymorth'. Gall cyfnod o gymorth fod yn un diwrnod (e.e. lle mae angen un rhyngweithiad yn unig) neu gall ymestyn i sawl mis (e.e. lle mae angen mwy nag un rhyngweithiad). Cafodd cyfnodau o gymorth eu categoreiddio naill ai fel 'cyfnodau o gymorth yn y carchar', lle cawsant o leiaf un rhyngweithiad mewn carchar, neu 'gyfnodau dilynol o gymorth', lle roeddent wedi digwydd yn y gymuned ers i gyfnod o gymorth yn y carchar ddod i ben.

2. rhyngweithiadau: mae pob cyfathrebiad unigol rhwng staff Cymru'n Gweithio ac unigolyn fel rhan o gyfnod o gymorth yn cael ei gofnodi fel 'rhyngweithiad'. Gall rhyngweithiad fod trwy gymysgedd o sianeli, gan gynnwys e-bost, wyneb yn wyneb, dros y ffôn, trwy neges destun neu e-bost.

Gellir dod o hyd i restr lawn o newidynnau ar gyfer pob un yn Atodiad B.

2.6 Prif ffocws y dadansoddiad oedd y cyfnodau o gymorth yn y carchar a'r rhyngweithiadau unigol o'r rhain. Cyflwynwyd cyfnodau o gymorth yn y carchar gan wasanaeth Cymru'n Gweithio i garcharorion. Fodd bynnag, gan fod cyfnod o gymorth yn cael ei gategoreiddio fel cyfnod o gymorth yn y carchar os yw'n cynnwys o leiaf un rhyngweithiad mewn carchar, mae'n golygu bod rhai cyfnodau o gymorth yn y carchar yn cynnwys rhyngweithiadau a ddigwyddodd mewn carchar ac yn y gymuned fel ei gilydd.

2.7 Cynhaliwyd gwaith dadansoddi ar gyfnodau o gymorth a ddechreuodd rhwng 2021 a 22 a 2023 i 24 (h.y. rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2024) ac ar ryngweithiadau a ddigwyddodd rhwng 2022 a 23 a 2023 i 24 (h.y. rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2024). Ni chynhwyswyd rhyngweithiadau rhwng 2021 a 22 (h.y. rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022), gan fod polisi cadw data Gyrfa Cymru wedi effeithio ar y rhain. Mae Gyrfa Cymru'n dileu data rhyngweithio yn awtomatig unwaith y bydd yn fwy na dwy flynedd fusnes oed, ar yr amod na chafwyd rhyngweithio yn y cyfamser (os oedd cwsmer wedi cael rhyngweithiad diweddar, yna mae'r cloc yn cael ei ailosod ar gyfer ei ddata rhyngweithio).

2.8 Dadansoddwyd y data gwybodaeth fonitro yn Microsoft Excel.

### Cyfweliadau

2.9 Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig ym mis Chwefror i fis Mawrth 2024 gyda chynghorwyr Cymru’n Gweithio, sy'n gweithio'n benodol mewn carchardai. Roedd y cyfweliadau lled-strwythuredig yn cynnwys pum cyfranogwr y darparwyd eu manylion gan Gyrfa Cymru.

2.10 Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda chynghorwyr Cymru’n Gweithio ar-lein trwy Microsoft Teams. Cynhaliwyd pum cyfweliad at ei gilydd, yr oedd pob un ohonynt yn cynnwys un cynghorydd a dau ymchwilydd o Wasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) Llywodraeth Cymru. Parhaodd y cyfweliadau rhwng pedwar deg pump o funudau ac awr.

2.11 Cafodd cynghorwyr Cymru’n Gweithio eu recriwtio trwy e-bost dwyieithog a oedd yn manylu ar y rhesymeg dros yr ymchwil, manylion y cyfwelydd a hysbysiad preifatrwydd. Ar gais y cyfranogwyr, cynhaliwyd yr holl gyfweliadau yn Saesneg.

2.12 Datblygwyd canllawiau trafod ar gyfer y cyfweliadau gan ymchwilwyr KAS, gyda mewnbwn gan swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd yr un canllawiau trafod ar gyfer pob cyfranogwr. Gofynnwyd cwestiynau i'r cyfranogwyr am: (a), darparu'r gwasanaeth, (b), rhyngweithio â'r carcharorion, (c), unrhyw heriau neu rwystrau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth a (d) cyswllt â sefydliadau trydydd parti, yn fewnol ac yn allanol. Mae'r canllawiau trafod llawn i'w gweld yn Atodiad C.

2.13 Cafodd sain pob cyfweliad ei recordio a'i thrawsgrifio gan ddefnyddio'r swyddogaeth trawsgrifio awtomatig yn Microsoft Teams. Yna adolygodd dau ymchwilydd y trawsgrifiadau yn annibynnol i gywiro unrhyw wallau.

2.14 Defnyddiwyd dadansoddiad thematig atgyrchol (RTA) gan yr ymchwilydd ar y data a gasglwyd. Defnyddir RTA fel 'dull o nodi, dadansoddi ac adrodd ar batrymau (themâu) o fewn data' (‘Using thematic analysis in psychology’ (Braun and Clarke, 2006) (Taylor & Francis Online)).

2.15 Ystyrir bod dadansoddiad thematig atgyrchol yn adlewyrchu ddadansoddiad deongliadol yr ymchwilydd o'r data, felly ni ddylai fod disgwyl y gall codau neu themâu a ddehonglir gan un ymchwilydd gael eu hatgynhyrchu gan ymchwilydd arall (‘A worked example of Braun and Clarke’s approach to reflexive thematic analysis’ (Byrne, 2021) (Springer Nature Link)). Dadansoddwyd y data gan ddau ymchwilydd yn KAS i wirio synnwyr syniadau gyda'r nod o gyflawni dehongliadau cyfoethocach o ystyr.

### Cyfyngiadau ac ystyriaethau methodolegol

2.16 Mae'n bwysig cydnabod y cyfyngiadau a'r ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r ymchwil.

Gwybodaeth fonitro

2.17 Mae nifer y cyfnodau o gymorth a rhyngweithiadau yn y carchar yn fwy na'r rhai a adroddwyd gan Gyrfa Cymru mewn adroddiadau blynyddol. Ceir cymhariaeth yn Atodiad B (Tablau B.1 a B.2). Cynghorodd Gyrfa Cymru fod y ffigurau yn adroddiad blynyddol Gyrfa Cymru yn seiliedig ar adroddiadau DPA sy'n aml yn cael eu coladu gan ddefnyddio echdyniad data o ddiwrnod cyntaf y mis canlynol. Mae hyn yn golygu nad yw unrhyw gofnodion data hwyr neu gywiriadau i'r data yn cael eu cynnwys. Mewn cyferbyniad, tynnwyd y data ar gyfer yr adroddiad hwn ym mis Gorffennaf 2024, felly mae'r ffigurau'n cynnwys cofnodion data hwyr neu gywiriadau. Yn ogystal, ar gyfer rhyngweithiadau, mae ffigurau adroddiadau blynyddol Gyrfa Cymru yn osgoi gwaith cyfrif dwbl. Er enghraifft, gan y gall rhai cwsmeriaid yn y carchar hefyd fod yn dderbynwyr ReAct [troednodyn 12], yna mae'r rhyngweithiadau hyn, sy'n gysylltiedig â ReAct, yn cael eu cyfrif mewn ffigurau a adroddir ar gyfer ReAct, ac nid carchardai. Fodd bynnag, nid oedd y rhyngweithiadau hyn wedi'u gwahanu yn y data a ddarparwyd ar gyfer yr adroddiad hwn.

2.18 Roedd y dadansoddiad 'Cyfnodau o gymorth yn ôl carchar' yn seiliedig ar y carchar a wnaeth atgyfeiriad i Cymru’n Gweithio. Efallai bod rhai cyfnodau o gymorth wedi cynnwys rhyngweithiadau mewn mwy nag un carchar os, er enghraifft, oedd carcharor wedi symud carchar. Yn yr achosion hyn, cynhwyswyd y cyfnod o gymorth yn y gyfran ar gyfer y carchar a atgyfeiriodd y carcharor am gymorth.

2.19 Mae'r dadansoddiad 'proffil carcharorion' yn darparu dadansoddiad manwl yn ôl cyfnodau o gymorth yn y carchar. Felly, os cafodd carcharor fwy nag un cyfnod o gymorth yn y carchar rhwng 2021 a 22 a 2023 i 24, yna bydd yn cael ei gyfrif fwy nag unwaith. Gall hyn chwyddo’r niferoedd a gyrchodd y gwasanaeth ar gyfer nodwedd ddemograffig o gymharu â sefyllfa pe bai'r dadansoddiad yn cael ei gynnal yn ôl carcharorion unigryw.

2.20 Nid oedd gan 877 o gyfnodau o gymorth yn y carchar unrhyw ddata am lefel y cymhwyster uchaf wedi'i gofnodi (32% o gyfnodau o gymorth mewn carchardai). O ystyried y gyfran fawr o'r rhain, dylid cymryd gofal wrth dynnu casgliadau o'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig â data ynghylch cymwysterau.

2.21 Nid oedd y statws chwe mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth ar gael ar gyfer 807 o gyfnodau o gymorth yn y carchar (29% o gyfnodau o gymorth mewn carchar). Roedd y rhain yn bennaf oherwydd nad oedd y cyfnod o gymorth yn y carchar wedi'i gau eto neu oherwydd y ffaith, pan ddarparwyd y data (h.y. Gorffennaf 2024), nad oedd chwe mis wedi mynd heibio eto ers i'r cyfnod o gymorth mewn carchar ddod i

[12] Mae hyn yn cynnwys ReAct III, Access a ReAct Plws

ben. Tynnwyd sylw at hyn gan 780 o'r cyfnodau o gymorth yn y carchar heb statws chwe mis ar ôl gadael yn 2023 i 24 (57% o gyfnodau o gymorth mewn carchar ar gyfer y flwyddyn honno).

2.22 Roedd wyth cyfnod o gymorth yn y carchar heb unrhyw ryngweithiadau (0.3% o gyfnodau o gymorth mewn carchar) a 36 o gyfnodau dilynol o gymorth heb unrhyw ryngweithiadau (8% o gyfnodau dilynol o gymorth). Mae'n debygol bod hyn wedi digwydd lle roedd apwyntiad wedi'i drefnu, ond ni aeth yr unigolyn i'r apwyntiad, ac nid oedd Cymru’n Gweithio yn gallu aildrefnu apwyntiad newydd. Cafodd y cyfnodau hyn eu cynnwys yn y dadansoddiad gan eu bod yn rhan o'r wybodaeth fonitro a ddarperir gan y gwasanaeth.

2.23 Mae canrannau mewn tablau a graffiau yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Felly, efallai na fydd rhai yn dod i gyfanswm o 100%. Hefyd, gall 0% gynnwys y rhai sydd â rhai cyfnodau o gymorth neu ryngweithio (llai na 0.5%), yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt unrhyw gyfnodau o gymorth neu ryngweithiadau (0.0%).

Cyfweliadau ansoddol

2.24 Ar draws yr wyth carchar lle mae Cymru’n Gweithio yn cael ei gyflwyno, mae saith cynghorydd. Roedd yr ymchwilwyr yn gallu cyfweld pump o'r saith hyn.

2.25 O ystyried bod un cynghorydd ym mhob carchar ac mae pob lleoliad yn ymddangos yn eithaf gwahanol, nid yw'n bosibl canfod a ellir cyffredinoli ymatebion y tu hwnt i'r carchar penodol heb sampl fwy.

2.26 Er gwaethaf y ffaith bod cyfweliadau ansoddol yn darparu mewnwelediadau, gwead a ffocws cyfoethog, dim ond ciplun ydynt, ac nid ydynt o reidrwydd yn darparu patrymau na gwybodaeth ehangach am gyfnodau hirach o amser. Felly, ni ellir cyffredinoli canfyddiadau i boblogaeth fwy.

2.27 Cynhaliwyd y cyfweliadau hefyd gyda chynghorwyr Cymru’n Gweithio yn unig, ac nid y carcharorion. Mae hyn yn creu perygl y ceir bwlch posibl yn y dystiolaeth, gan nad yw'r ystod lawn o brofiadau a chanfyddiadau o'r gwasanaeth yn cael ei chanfod.

2.28 Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidol a risg diswyddo yn y sector cyhoeddus, a allai fod wedi effeithio ar yr ymateb ymhlith staff pan ofynnwyd iddynt am effeithiolrwydd y gwasanaeth.

## 3. Adolygiad llenyddiaeth

3.1 Fel rhan o'r ymchwil hon, cynhaliwyd adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd cyngor, gwybodaeth ac arweiniad cyflogadwyedd mewn carchardai wrth baratoi ar gyfer yr adeg pan fydd carcharorion yn cael eu rhyddhau. Mae'r adolygiad hwn wedi tynnu'n helaeth ar ddulliau yng Nghymru a Lloegr, wrth hefyd yn edrych yn fwy rhyngwladol. Canfu'r adolygiad fod addysg, hyfforddiant ac arweiniad cyflogadwyedd yn bwysig mewn carchardai i helpu carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau i integreiddio yn ôl i gymdeithas ac atal aildroseddu [troednodyn13]. Mae tystiolaeth hefyd bod cynnig y cymorth hwn i garcharorion tra byddant mewn carchardai yn hanfodol i gynnal cymdeithas gytbwys lle mae unigolion yn cael cynnig cyfleoedd cyfartal [troednodyn 13]. Er gwaethaf y ffaith bod ganddynt fynediad i gymorth penodol, fodd bynnag, canfu'r adolygiad fod carcharorion yn ei chael yn anodd cael cyflogaeth ar ôl cael eu rhyddhau oherwydd nad yw cyflogwyr petrus eisiau mentro cyflogi cyn-garcharor [troednodyn 13].

3.2 Mae'r adolygiad hwn wedi ymgorffori adolygiadau, adroddiadau ac ymchwil sy'n llywio gwybodaeth am werth arweiniad cyflogaeth mewn carchardai, ac o ganlyniad, y cyfleoedd cyflogaeth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau.

### Gwerth addysg, hyfforddiant ac arweiniad cyflogaeth mewn carchardai

3.3 Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn dangos bod addysg a hyfforddiant nid yn unig yn fodd o gefnogi carcharorion wrth iddynt drosglwyddo o'r carchar i'r byd y tu allan, ond yn ôl confensiynau ac argymhellion rhyngwladol, mae gan garcharorion yr un hawl i addysg â dinasyddion eraill. Felly, mae addysg yn 'imperative in its own right' [troednodyn14] na ddylai carcharorion ei fforffedu tra byddant yn y carchar.

3.4 Canfu ymchwil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fod pobl a oedd wedi cymryd rhan mewn addysg tra oeddent yn y carchar 7.5 pwynt canran yn llai tebygol o aildroseddu o fewn 12 mis ar ôl cael eu rhyddhau na'r rhai nad oeddent wedi cyfranogi [troednodyn 15]. Fodd bynnag, ledled y DU, mae addysg mewn carchardai mewn cyflwr gwael yn dilyn dirywiad hirdymor yn ansawdd addysg a hefyd nifer y carcharorion sy'n cymryd rhan mewn dysgu neu hyfforddiant. Yn 2020, o'r 32 o sefydliadau a arolygwyd gan Ofsted, dim ond naw y barnwyd eu bod yn dda neu'n rhagorol [troednodyn 15]. Yng Nghymru, awgrymodd mewnwelediadau cynnar o arolygiadau Estyn yn 2023 i 24 fod ansawdd yr addysgu yn anghyson [troednodyn 16].

[13] GHK (2013) Prison education and training in Europe
[14] Muñoz, V (2009) The right to education of persons in detention. Report of the Special Rapporteur on the right to education, Cyngor Hawliau Dynol, y Cenhedloedd Unedig.
[15] ŷ'r Cyffredin (2022) Not just another brick in the wall
[16] Estyn (2024) Dysgu yn y sector cyfiawnder

3.5 Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hadleisio mewn adroddiad Americanaidd('Implementing educational courses on social media within prisons to decrease unemployment rates among ex-prisoners and reduce recidivism in the United States' (Hernandez, 2019) (Regis University Student Publications)), sy'n awgrymu, lle mae carcharorion wedi cael eu tynnu o gymdeithas, nad ydynt wedi addasu i ddatblygiadau cymdeithas. Felly, nid yw'r hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir ar hyn o bryd i garcharorion mewn carchardai'n ddigonol nac yn berthnasol i'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt mewn cymdeithas. Er enghraifft, mae technoleg yn datblygu'n gyson ac mae bellach wedi tyfu i'r graddau lle mae wedi dod yn rhan o fywyd beunyddiol pawb. Felly, mae Hernandez (2019) yn awgrymu y gallai fod yn fuddiol gweithredu cyrsiau addysgol ar y cyfryngau cymdeithasol o fewn carchardai i baratoi carcharorion i gael eu rhyddhau. Byddai hyn yn werthfawr i garcharorion, a'r Unol Daleithiau, o ran gwella cyfraddau diweithdra ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau a gwella cyfraddau aildroseddu [troednodyn 17].

3.6 Er nad oes tystiolaeth gadarn ar hyn o bryd i awgrymu bod diffyg sgiliau sylfaenol yn rhagfynegi troseddu, mae lefelau addysg yn tueddu i fod yn isel ymhlith poblogaeth carchardai [troednodyn13]. Felly, mae darparu cyfleoedd dysgu yn y carchar yn gyfle i fynd i'r afael â'r bwlch o ran cymwysterau, wrth ddarparu 'sgiliau bywyd' sylfaenol i garcharorion ar yr un pryd.

3.7 Datgelodd Asesiad Tystiolaeth Cyflym o raglenni addysgol a ddarparwyd mewn carchardai gynnydd o 24% yn y tebygolrwydd o gael cyflogaeth os yw'r carcharor yn cymryd rhan mewn addysg yn y carchar [troednodyn 18]. Fodd bynnag, dim ond ar nifer fach o bapurau yr oedd hyn yn seiliedig, gyda chanfyddiadau ystadegol yn llai cadarn a thystiolaeth a oedd wedi'i thynnu i raddau helaeth o'r UDA [troednodyn 18]. Felly, mae tystiolaeth i ategu gwerth addysg ac arweiniad cyflogadwyedd yn y DU yn gyfyngedig iawn.

**Cyfleoedd cyflogaeth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau**

3.8 Mae ail-ymuno â chymdeithas ar ôl bod yn y carchar yn cyflwyno set aruthrol o heriau. Yn ôl ('Prison Education Maximising the potential for employment and successful community reintegration'(Leone and Wruble, 2017) (Abell Foundation, The Abell Report), mae'r rhai sy'n gallu llywio'r broses hon orau wedi datblygu sgiliau a chymwysterau tra oeddent yn y carchar sy'n cael eu gwerthfawrogi gan ddarpar gyflogwyr, rhaglenni hyfforddi, a cholegau.

[17] Hernandez, S. (2019) Implementing Educational Courses on Social Media Within Prisons to Decrease Unemployment Rates Among Ex-Prisoners and Reduce Recidivism in the United States
[18] Ellison, M., Szifris, K., Horan, R., a Fox, C. (2017). Asesiad Tystiolaeth Gyflym o effeithiolrwydd addysg carchardai wrth leihau ailadrodd a chynyddu cyflogaeth. *Probation Journal*, *64*(2), 108-128.

3.9 Yng Nghymru a Lloegr, mae aildroseddu troseddol yn costio £18 biliwn y flwyddyn, felly mae sicrhau cyflogaeth yn bwysig o ran cefnogi cyn-garcharorion i ymatal rhag troseddu [troednodyn 19]. Fodd bynnag, dim ond 17% o gyn-garcharorion sydd wedi'u cyflogi flwyddyn ar ôl cael eu rhyddhau [troednodyn 20]. Canfu Atherton and Buck (2021) ('Employing with conviction: The experiences of employers who actively recruit criminalised people'. Probation Journal), mewn ymgais i ddeall cymhellion cyflogwyr nad ydynt yn recriwtio pobl droseddol, yn eu cyfweliadau ansoddol â 12 arweinydd busnes yn Lloegr sy'n mynd ati'n rhagweithiol i gyflogi pobl sydd wedi'u troseddu, y gellir annog recriwtio cynhwysol (yn anuniongyrchol) gan bolisïau cynllunio sy'n anelu at wella lles cymdeithasol ac amgylcheddol [troednodyn 21]. Yn yr un modd, adroddodd Dar (2018) ( 'Using semi-structured interviews to explore employer attitudes towards recruiting ex-offenders'. Prifysgol Fetropolitan Manceinion.) y gellir herio agweddau negyddol tuag at gyn-garcharorion trwy newid polisi a chynyddu ymwybyddiaeth ac y ceir agweddau negyddol fel arfer oherwydd nodweddion sy'n ymwneud â throseddau penodol.

3.10 O ran cyfleoedd cyflogaeth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau, yn debyg i'r DU, mae tystiolaeth ar raddfa ryngwladol yn dangos bod carchardai'n cael effaith hynod gyfyngol ar gyflogadwyedd. Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Gilbert, Elley a Best (2019) ('Second chances: a report on employing offenders in Canterbury'. Independent Research Solutions)yn Seland Newydd mai dim ond 65.6% o gyflogwyr a ddywedodd y byddent yn ystyried llogi carcharor. Hefyd, canfuwyd bod hanner y busnesau yn gwirio cofnodion troseddol yn ystod y broses llogi a bod y busnesau hyn yn llai tebygol o ystyried cyflogi carcharor [troednodyn 22].

3.11 Mae'n hanfodol cynyddu'r siawns o gyflogadwyedd ar gyfer carcharorion, gweithio mewn partneriaeth a gwneud penderfyniadau ar lefel leol, rhwng carchardai, gwasanaethau prawf, darparwyr dysgu, cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae Gwybodaeth y Gwasanaeth Carchardai (PSI) yn cyflwyno cyd-destun gweithredol ar gyfer hyfforddiant cyflogaeth a phrofiad sgiliau carcharorion yn y ddalfa ac yn hwyluso pontio a pharhad ar ôl iddynt gael eu rhyddhau [troednodyn 23].

3.12 Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau o'r DU sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiadau systematig hyn wedi bod yn seiliedig ar garcharorion gwrywaidd; mae tystiolaeth gyfyngedig ynghylch y cymorth cyflogadwyedd y mae menywod yn ei gaen tra byddant yn y carchar. Yn Strategaeth Troseddwyr Benywaidd 2018 [troednodyn 24],

---

[19] Probation Journal (2021) Employing with conviction
[20] Strategaeth Addysg a Chyflogaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018)
[21] Atherton, P., a Buck, G. (2021). Employing with conviction: The experiences of employers who actively recruit criminalised people. *Probation Journal*, *68*(2), 186-205.
[22] Gilbert J, Elley B, Best T (2019). Second chances: a report on employing offenders in Canterbury. Ymddiriedolaeth Elusennol Pathway.
[23] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012) Prisoner employment, training and skills
[24] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018). Strategaeth Carcharorion Benywaidd.

tanlinellodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr angen am 'ymagwedd hollol wahanol' at drin menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Roedd y strategaeth eisiau helpu i wella gwasanaethau cymorth yn y gymuned a lleihau nifer y menywod yn y ddalfa. Yn 2023, cafodd 18% o'r holl fenywod a ddedfrydwyd i'r ddalfa ar unwaith yng Nghymru ddedfrydau o fis neu lai, o gymharu ag 11% o ddynion [troednodyn 25].

3.13 Canfu'r adolygiad llenyddiaeth fod diffyg tystiolaeth yn gyffredinol ynglŷn â chyngor, gwybodaeth ac arweiniad mewn perthynas â chyflogadwyedd mewn carchardai, yn enwedig ledled y DU. Wrth chwilio am dystiolaeth ar raddfa ryngwladol, ceir mwy mewn gohebiaeth i leihau cyfraddau aildroseddu a sicrhau cyflogaeth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau.

## 4. Dadansoddi'r wybodaeth fonitro

4.1 Mae'r bennod hon yn manylu ar ganfyddiadau'r dadansoddiad meintiol o wybodaeth monitro gwasanaeth Cymru'n Gweithio a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru. Mae'r canfyddiadau'n cynnwys darparu gwasanaethau, proffil carcharorion, atgyfeiriadau i'r gwasanaeth, atgyfeiriadau gan y gwasanaeth, canlyniadau a chymorth dilynol.

4.2 Mae'r dadansoddiad o gyfnodau o gymorth yn dod o'r cyfnod rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2024, ac mae'r dadansoddiad o ryngweithiadau'n dod o'r cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2024 [troednodyn 26].

4.3 Mae'r cyfeiriadau canlynol at gyfnodau o gymorth yn cyfeirio at ddadansoddiad o gyfnodau o gymorth yn y carchar, ac eithrio'r is-adran 'cymorth gwasanaeth dilynol' – sy'n cynnwys dadansoddiad o gyfnodau cymorth yn y carchar a chyfnodau dilynol o gymorth ac, felly, mae'r ddau wedi'u labelu'n glir.

### Darparu gwasanaethau

4.4 Roedd cyfanswm o 2,747 o gyfnodau o gymorth a ddechreuodd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2024. Mae Ffigur 4.1 yn dangos bod nifer y cyfnodau o gymorth wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall [troednodyn 27]. Cynyddodd y rhain 125% rhwng 2021 i 22 a 2022 i 23 a 44% rhwng 2022 i 23 a 2023 i 24. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu bod Cymru'n Gweithio wedi cyflawni ei amcan, fel yr amlinellir ym mharagraff 1.9, o roi 'mwy o adnoddau i garchardai yn ystod 2023 i 24'. Roedd cyfnodau o gymorth yn 2023 i 24 yn cyfrif am hanner yr holl gyfnodau o gymorth (50%) yn ystod y cyfnod o dair blynedd.

[25] Jones, R. (2024). Prisons and Sentencing in Wales: 2023 Factfile. Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.
[26] Mae 2021-22 wedi'i heithrio rhag y dadansoddiad o ryngweithiadau oherwydd polisi cadw data Gyrfa Cymru. Ceir mwy o wybodaeth yn adran fethodoleg yr adroddiad hwn.

[27] Mae'r dadansoddiad o gyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn yn seiliedig ar y flwyddyn pan ddechreuodd.

**Ffigur 4.1: Cyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn**




Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=2,747 o gyfnodau o gymorth)

4.5 Cafwyd cyfanswm o 4,500 o ryngweithiadau un-i-un ar gyfer cyfnodau o gymorth rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2024 [troednodyn 28] Cynyddodd nifer y rhyngweithiadau un-i-un o 1,631 yn 2022 i 23 (cyfartaledd o 1.7 fesul cyfnod o gymorth) i 2,869 yn 2023 i 24 (cyfartaledd o 2.1 fesul cyfnod o gymorth). Roedd hyn yn gynnydd blynyddol o 76%.

4.6 Mae Tabl 4.1 yn dangos sianel rhyngweithiadau un-i-un yn ôl blwyddyn. Wyneb yn wyneb oedd y sianel ryngweithio fwyaf poblogaidd yn 2022 i 23 (88%) a 2023 i 24 (86%). Roedd y rhyngweithiadau sy'n weddill, a oedd trwy sianeli o bell, yn debygol o fod yn rhyngweithiadau dilynol rhwng cynghorydd a charcharor a ryddhawyd yn ddiweddar ond gallai hefyd fod wedi cynnwys galwadau ffôn rhwng cynghorwyr a charcharorion.

[28] Mae'r rhain yn cynnwys rhyngweithiadau dilynol sydd weithiau'n digwydd rhwng cynghorydd a charcharor sydd wedi'i ryddhau yn ddiweddar.

**Tabl 4.1: Mae Tabl 4.1 yn dangos sianel rhyngweithiadau un-i-un yn ôl blwyddyn.**

| **Sianel** | 2022 i 23 **(n=1,631)** | **2023 i 24 (n=2,869)** |
|---|---|---|
| E-bost | 2% | 3% |
| Wyneb yn wyneb | 88% | 86% |
| Ffôn | 10% | 10% |
| Neges destun | 1% | 1% |
| Fideo | 0% | 0% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=4,500 o ryngweithiadau)

Rhyngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un a gyflwynwyd mewn carchardai

4.7 O ran rhyngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un rhwng cynghorydd Cymru'n Gweithio neu hyfforddwr cyflogadwyedd a charcharor, roedd 1,437 yn 2022 i 23 (cyfartaledd o 1.5 fesul cyfnod o gymorth) a 2,456 yn 2023 i 24 (cyfartaledd o 1.8 fesul cyfnod o gymorth). Defnyddir y math hwn o ryngweithio fel sail ar gyfer dadansoddiad gan ei fod yn canolbwyntio ar y cymorth wyneb yn wyneb uniongyrchol a ddarperir gan y gwasanaeth.

4.8 Mae Ffigur 4.2 yn dangos dadansoddiad o ryngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un yn ôl y carchar a'r flwyddyn. CEF Caerdydd a gyflawnodd y gyfran fwyaf o ryngweithiadau wyneb yn wyneb un-un yn 2022 i 23 a 2023 i 24, tra bod CEF Eastwood Park a CEF Styal wedi cyflawni'r gyfran leiaf o'r rhyngweithiadau hyn yn yr un cyfnod. Dim ond ym mis Mawrth 2023 y dyrannwyd cynghorydd i CEF Styal; dyna sy'n esbonio'r gyfran o 0% yn 2022 i 23 [troednodyn 29]. Rhwng 2022 i 23 a 2023 i 24, gostyngodd cyfran y rhyngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc 10 pwynt canran tra bod cyfran y rhyngweithiadau wyneb un-i-un yn CEF Abertawe wedi cynyddu 9 pwynt canran.

[29] Cafwyd 6 rhyngweithiad yn CEF Styal yn 2022 i 23.

**Ffigur 4.2: Cyfran y rhyngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un yn ôl y carchar a'r flwyddyn.**




Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=3,599 o ryngweithiadau)
Mae 294 o ryngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un o leoliadau heblaw carchar wedi'u heithrio.

4.9 Yr amser canolrifol a dreuliwyd fesul rhyngweithiad wyneb yn wyneb un-i-un oedd 45 munud yn 2022 i 23 a 2023 i 24. Mae Ffigur 4.3 yn dangos y dadansoddiad yn ôl y carchar a'r flwyddyn. Yr amser canolrifol fesul rhyngweithiad wyneb yn wyneb un-i-un rhwng cynghorydd Cymru'n Gweithio neu hyfforddwr cyflogadwyedd a charcharor oedd rhwng 30 a 60 munud ar gyfer pob carchar. Rhwng 2022 i 23 a 2023 i 24 ,ni chafwyd unrhyw newid yn yr amser canolrifol fesul rhyngweithiad wyneb un-i-un ym mhob carchar ac eithrio CEF Abertawe, lle gwelwyd cynnydd o 15 munud yn y rhyngweithiadau yn 2023 i 24.

**Ffigur 4.3: Yr amser canolrifol fesul rhyngweithiad wyneb yn wyneb un-i-un (munudau) yn ôl y carchar a'r flwyddyn**




Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=3,599 o ryngweithiadau)
Mae 316 o ryngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un o leoliadau heblaw carchar wedi'u heithrio.

4.10 Yn ogystal â chynghorydd gyrfaoedd, mae hyfforddwr cyflogadwyedd [troednodyn 30] wedi bod yn darparu cymorth yn CEF Caerdydd a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc. Mae Tabl 4.2 yn dangos cyfran y rhyngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un bob blwyddyn a gyflwynwyd gan gynghorydd a hyfforddwr cyflogadwyedd yn y ddau garchar. Cyflwynwyd cyfran uwch o ryngweithiadau wyneb un-i-un yn CEF Caerdydd gan hyfforddwr cyflogadwyedd yn 2022 i 23 nag yn 2023 i 24. Ni chyflwynwyd unrhyw ryngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un gan hyfforddwr cyflogadwyedd yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc yn 2022 i 23. Yn CEF Caerdydd a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc, cyflwynwyd un rhan o ddeg

[30] Mae hyfforddwyr cyflogadwyedd wedi'u hyfforddi i CIAG Lefel 4. Maent yn darparu gwybodaeth a chyngor gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, gan ddarparu gwasanaeth cyfunol trwy gontractau â chyllid craidd a chontractau heb fod â chyllid craidd. Maent yn cyflwyno sesiynau grŵp cyflogadwyedd ac yn cefnogi'r gwaith o redeg canolfannau gyrfaoedd.

(10%) o ryngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un yn 2023 i 24 gan hyfforddwr cyflogadwyedd.

**Tabl 4.2: Cyfran y rhyngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un bob blwyddyn a gyflwynwyd gan gynghorydd a hyfforddwr cyflogadwyedd yn CEF Caerdydd a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc**

| Carchar | Blwyddyn | Ymgynghorwr | Hyfforddwr Cyflogadwyedd |
|---|---|---|---|
| CEF Caerdydd | 2022 i 23 (n=410) | 84% | 16% |
| | 2023 i 24 (n=709) | 90% | 10% |
| CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc | 2022 i 23 (n=368) | 100% | 0% |
| | 2023 i 24 (n=416) | 90% | 10% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=1,903 o ryngweithiadau)
Nid oes cymhariaeth â'r adnoddau sydd wedi'u rhannu yn ôl carchar (nifer y diwrnodau yr wythnos yn ôl cynghorydd: nifer y diwrnodau yr wythnos yn ôl hyfforddwr cyflogadwyedd) oherwydd nad oes digon o ddata ar gael gan y gwasanaeth.

### Proffil carcharorion

4.11 Mae Tabl 4.3 yn dangos y nodweddion demograffig ar gyfer cyfnodau o gymorth rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2024. Roedd ychydig mwy na thri chwarter y cyfnodau o gymorth gyda charcharorion rhwng 25 a 34 oed (41%) a 35 i 49 (35%). Canfuwyd mai'r grwpiau oedran hyn hefyd yw'r carfanau mwyaf a gyrchodd y gwasanaeth Cymru'n Gweithio ehangach mewn gwerthusiad diweddar [troednodyn 31], a hynny'n gyson.

4.12 Roedd dynion yn cyfrif am 96% o'r cyfnodau o gymorth. Mae hyn yn uwch na'r bron 60% o'r un rhyw y canfuwyd eu bod yn cyrchu'r gwasanaeth Cymru'n Gweithio ehangach[troednodyn 31], ond mae cyfran uwch i'w disgwyl o ystyried mai i ddynion y caiff y rhan fwyaf o'r gwasanaeth ei ddarparu mewn carchardai. Gan ddefnyddio data poblogaeth carcharorion Cymru ar gyfer 2021 i 2023 o ymchwil gan Brifysgol Caerdydd [troednodyn 32], gellir arsylwi bod cyfran y cyfnodau o gymorth a ddarparwyd i fenywod (3%) yn cael ei thangynrychioli ychydig o gymharu â chyfran poblogaeth carcharorion Cymru a oedd yn fenywod (5%).

[31] Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: adroddiad terfynol.
Sylwch fod y dadansoddiad yn y gwerthusiad o Cymru'n Gweithio yn eithrio categorïau lle nad yw data demograffig wedi'i ddarparu, megis '(heb ei gofnodi)', 'ddim yn hysbys eto' ac 'mae'n well ganddo beidio â dweud', ac mae ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng Chwefror 2019 a Mawrth 2023.
[32] Jones, R. (2024) 2023 Factfile: Prisons and sentencing in Wales

4.13 O ran ethnigrwydd, roedd 89% o'r cyfnodau o gymorth gyda charcharorion a oedd yn Wyn. Dilynwyd hyn gan garcharorion o gefndir Du / Prydeinig (4%), Asiaidd / Prydeinig (3%), Cymysg (3%) ac o Grŵp Ethnig Arall (1%). Mae'r canrannau hyn yn wahanol i'r rhai y canfyddir eu bod yn cyrchu gwasanaeth ehangach Cymru'n Gweithio [troednodyn 31], ond maent yn cyd-fynd yn fras â phoblogaeth carcharorion Cymru o 2023, sef: Gwyn (88%), Asiaidd (3%), Du (3%) a Chymysg (3%) [troednodyn 32].

4.14 Roedd mwy nag un rhan o ddeg (12%) o gyfnodau o gymorth gyda charcharorion a adroddodd fod ganddynt anabledd. Mae hyn yn uwch na'r 8% a ganfuwyd eu bod yn cael mynediad i'r gwasanaeth Cymru'n Gweithio ehangach [troednodyn 31]. Amcangyfrifodd Cunniffee et al. (2012) ('Estimating the prevalence of disability amongst prisoners: results from the Surveying Prisoner Crime Reduction (SPCR) survey'. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder )fod gan dros draean (36%) o bobl yn y carchar yng Nghymru a Lloegr anabledd, o gymharu ag un o bob pump (19%) o'r boblogaeth gyffredinol. Mae data mwy diweddar o'r cyfnod rhwng 2023 a 24 yn dangos bod 44% o fenywod a gymerodd rhan yn yr arolwg, 39% o ddynion a 36% o blant yn y carchar yn dweud bod ganddynt anabledd [troednodyn 33]. Mae dadansoddiad pellach (gweler Tabl 4.4) yn dangos bod nifer y cyfnodau o gymorth sy'n ymwneud â charcharor ag anabledd wedi cynyddu'n raddol flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ystod y cyfnod adrodd - o 11% yn 2021 i 22, i 12% yn 2022 i 23, ac yna i 13% yn 2023 i 24. Nid yw'n glir a yw hyn oherwydd newidiadau ym mhoblogaeth y carcharorion a/neu a yw hynny oherwydd gwelliannau mewn trefniadau cofnodi/adrodd gan y gwasanaeth.

[33] Prif Arolygydd Carchardai EF (2024). Adroddiad blynyddol 2023–24. Llyfrfa EF.

**Tabl 4.3: Nodweddion demograffig carcharorion sy'n cyrchu cyfnodau o gymorth**

| Categori | Is-gategori | % |
|---|---|---|
| Oed | <16 | 0% |
| | 16 i 18 | 2% |
| | 19 i 24 | 16% |
| | 25 i 34 | 41% |
| | 35 i 49 | 35% |
| | 50+ | 6% |
| Rhyw | Benyw | 3% |
| | Gwryw | 96% |
| | Arall | 0% |
| Ethnigrwydd | (heb ei gofnodi) | 0% |
| | Grŵp Ethnig Arall | 1% |
| | Asiaidd/Prydeinig | 3% |
| | Du/Prydeinig | 4% |
| | Cymysg | 3% |
| | Ddim yn hysbys eto | 0% |
| | Mae'n well ganddo beidio â dweud | 1% |
| | Gwyn | 89% |
| Anabledd | (heb ei gofnodi) | 1% |
| | Nac oes | 86% |
| | Ddim yn hysbys eto | 0% |
| | Mae'n well ganddo beidio â dweud | 1% |
| | Oes | 12% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=2,747 o gyfnodau o gymorth)

**Tabl 4.4: Statws anabledd carcharorion ar gyfer cyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn**

| Anabledd | 2021 i 22 (n=424) | 2022 i 23 (n=954) | 2023 i 24 (n=1,369) |
|---|---|---|---|
| (heb ei gofnodi) | 3% | 0% | 0% |
| Nac oes | 85% | 88% | 85% |
| Ddim yn hysbys eto | 1% | 0% | 0% |
| Mae'n well ganddo beidio â dweud | 0% | 0% | 2% |
| Oes | 11% | 12% | 13% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=2,747 o gyfnodau o gymorth)

4.15 Fel y dangosir yn Ffigur 4.4, roedd mwy na phedair rhan o bump (83%) o gyfnodau o gymorth rhwng 2021 a 22 a 2023 i 24 gyda charcharor a oedd wedi ennill cymhwyster o Lefel 2 neu is [troednodyn 34]. Y cymhwyster uchaf a gafwyd amlaf gan garcharorion yn ystod cyfnodau o gymorth oedd Lefel 1 (31%). Mae hyn yn gyfwerth â graddau D i G TGAU [troednodyn 35].

4.16 Roedd mwy na hanner (56%) y cyfnodau o gymorth gyda charcharor sydd â chymhwyster uchaf o Lefel 1 neu is [troednodyn 36]. Mae hyn ddwywaith y gyfran o 28% a adroddwyd ar gyfer y gwasanaeth Cymru'n Gweithio ehangach [troednodyn 37]. Mae'r canfyddiad hwn yn dangos bod y rhai sy'n cyrchu cyfnodau o gymorth mewn carchardai yn debygol o fod â lefel is o gymwysterau na'r rhai yn y gymuned.

4.17 Mae dadansoddiad pellach yn dangos mai cyfran y cyfnodau o gymorth gyda'r rhai â chymhwyster o Lefel 1 neu is oedd fwyaf ar gyfer carcharorion 16 i 18 oed (89%) a 19 i 24 oed (72%) a'r isaf ar gyfer carcharorion 50 oed a throsodd (35%).

[34] Mae hyn yn cynnwys y canlynol: Dim (dim cymwysterau), Lefel Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2.
[35] Fframwaith Credydau a Chymwysterau (FfCChC): diagram gwyntyll | LLYW. CYMRU
[36] Mae hyn yn cynnwys y canlynol: Dim (dim cymwysterau), Lefel Mynediad a Lefel 1.
[37] Burgess, A., Parkinson, A., Allies, O., Gallagher, P., Abekhon, J. a Griffiths, E. (2024) Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: adroddiad terfynol. Sylwch mai ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng Chwefror 2019 a Mawrth 2023 yw'r dadansoddiad yn y gwerthusiad o Cymru'n Gweithio.

**Ffigur 4.4: Lefel cymhwyster uchaf carcharorion ar gyfer cyfnodau o gymorth**




Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=1,870 o gyfnodau o gymorth)

4.18 Mae Tabl 4.5 yn dangos y dadansoddiad ar gyfer lefel cymhwyster uchaf carcharorion ar gyfer cyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn. Cynyddodd canran y cyfnodau o gymorth lle roedd gan y carcharor gymhwyster Lefel 1 neu'n is flwyddyn ar ôl blwyddyn (o 45% yn 2021 i 22 i 57% yn 2022 i 23 ac yna i 59% yn 2023 i 24). Mae hyn yn awgrymu bod demograffig y carcharorion sy'n cyrchu cymorth gan y gwasanaeth wedi dod yn llai cymwys yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Tabl 4.5: Lefel cymhwyster uchaf carcharorion ar gyfer cyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn**

| Lefel cymwysterau | 2021 i 22 | 2022 i 23 | 2023 i 24 |
|---|---|---|---|
| Dim (dim cymwysterau) | 9% | 17% | 11% |
| Lefel Mynediad | 13% | 11% | 13% |
| Lefel 1 | 24% | 29% | 34% |
| Lefel 2 | 32% | 28% | 25% |
| Lefel 3 | 12% | 8% | 8% |
| Lefel 4 | 2% | 1% | 1% |
| Lefel 5 | 1% | 0% | 1% |
| Lefel 6 | 2% | 1% | 2% |
| Lefel 7 | 0% | 0% | 0% |
| Lefel 8 | 0% | 0% | 0% |
| Cymwysterau Eraill | 5% | 3% | 4% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=1,870 o gyfnodau o gymorth)

4.19 Dylid nodi bod cyfran y cyfnodau o gymorth lle na chofnodwyd gwybodaeth am lefel y cymhwyster uchaf wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn (o 24% yn 2021 i 22, i 29% yn 2022 i 23, ac yna i 36% yn 2023 i 24). Mae hyn yn bryder gan fod yr wybodaeth hon yn hanfodol i ddeall sut i deilwra cymorth fel bod carcharorion yn barod am swyddi ac yn cael gwaith.

4.20 Saesneg yw'r iaith lafar ac ysgrifenedig a ffefrir ar gyfer y rhan fwyaf o gyfnodau o gymorth (96%). Cymraeg yw'r iaith lafar ac ysgrifenedig a ffefrir ar gyfer 1% o gyfnodau o gymorth. Nid yw'r cyfnodau o gymorth sy'n weddill naill ai wedi cofnodi iaith a ffefrir neu nid yw'r iaith a ffefrir yn hysbys eto.

4.21 Fel y dangosir gan Dabl 4.6, mae cyfran y cyfnodau lle mai Cymraeg yw'r iaith lafar ac ysgrifenedig a ffefrir wedi cynyddu i 2% yn y flwyddyn fusnes ddiweddaraf. Ar ben hynny, mae'r trefniadau cofnodi'r iaith lafar a ffefrir a'r iaith ysgrifenedig a ffefrir wedi gwella ers 2021 i 22. Mae achosion o beidio â chofnodi wedi gostwng o 17% o gyfnodau o gymorth yn 2021 i 22 i 0% yn 2022 i 23 a 2023 i 24. Mae'r gwelliant hwn

mewn trefniadau cofnodi yn galonogol o ystyried yr angen i ddeall dewis carcharorion o ran darparu'r gwasanaeth.

**Tabl 4.6: Iaith a ffefrir (ar lafar ac ysgrifenedig) ar gyfer cyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn**

| Categori | Is-gategori | 2021 i 22 | 2022 i 23 | 2023 i 24 |
|---|---|---|---|---|
| Ar Lafar | (heb ei gofnodi) | 17% | 0% | 0% |
| | Saesneg | 83% | 99% | 98% |
| | Ddim yn hysbys eto | 0% | 0% | 0% |
| | Cymraeg | 0% | 0% | 2% |
| Ysgrifenedig | (heb ei gofnodi) | 17% | 0% | 0% |
| | Saesneg | 83% | 99% | 98% |
| | Ddim yn hysbys eto | 0% | 0% | 0% |
| | Cymraeg | 0% | 0% | 2% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=2,747 o gyfnodau o gymorth)

### Atgyfeiriadau i Cymru'n Gweithio

4.22 Prif ffynhonnell yr atgyfeiriadau i Cymru'n Gweithio am gyfnodau o gymorth oedd carchardai (98%). Efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried y lleoliad ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn. Mae ffynonellau atgyfeirio eraill ar gyfer cyfnodau o gymorth yn cynnwys hunan-atgyfeirio (1%) a'r gwasanaeth prawf (1%) [troednodyn38].

4.23 Mae Ffigur 4.5 yn dangos y dadansoddiad o gyfnodau o gymorth yn ôl y carchar a wnaeth atgyfeiriad i'r gwasanaeth. Atgyfeiriwyd bron traean (31%) o'r cyfnodau hyn o gymorth gan CEF Caerdydd. Mae hyn yn cyfateb i'r gyfran o ryngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un a welwyd yn y carchar (gweler Ffigur 4.2). Nid yw'n syndod, efallai, bod ganddynt yr adnodd Cymru'n Gweithio a ddyrannwyd fwyaf. Roedd y gyfran isaf o atgyfeiriadau am gyfnodau o gymorth gan CEF Eastwood Park (2%) a CEF Styal (1%). Mae hyn yn cyd-fynd â'r carchardai hyn sydd â'r adnodd Cymru'n Gweithio lleiaf a ddyrannwyd leiaf.

[38] Roedd tîm Addysg Gyrfa Cymru, Cymunedau am Waith, Digwyddiad a'r Ganolfan Byd Gwaith hefyd yn ffynonellau atgyfeirio, ond cyfrifwyd bod y rhain yn llai nag 1 %.

**Ffigur 4.5: Atgyfeiriadau ar gyfer cyfnodau o gymorth yn ôl y carchar**




Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=2,538 o gyfnodau o gymorth)

4.24 Mae Tabl 4.7 yn dangos y dadansoddiad o gyfnodau o gymorth yn ôl y carchar a atgyfeiriodd at y gwasanaeth a'r flwyddyn ymuno. Gostyngodd cyfran y cyfnodau o gymorth a atgyfeiriwyd gan CEF Eastwood Park flwyddyn ar ôl blwyddyn. I'r gwrthwyneb, cynyddodd cyfran y cyfnodau o gymorth a atgyfeiriwyd gan CEF Styal flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd 0% yn 2021 i 22, gan mai dim ond ym mis Mawrth 2023 y dyrannwyd cynghorydd i CEF Styal. Erbyn 2023 i 24, roedd yr un gyfran o gyfnodau o gymorth a gyfeiriwyd gan bob un (1%).

**Tabl 4.7: Atgyfeiriadau am gyfnodau o gymorth yn ôl y carchar a'r flwyddyn**

| Carchar | 2021 i 22 | 2022 i 23 | 2023 i 24 |
|---|---|---|---|
| CEF Caerdydd | 31% | 33% | 29% |
| CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc | 17% | 26% | 14% |
| CEF Prescoed | 23% | 9% | 14% |
| CEF Abertawe | 19% | 13% | 24% |
| CEF Berwyn | 2% | 14% | 12% |
| CEF Brynbuga | 4% | 3% | 4% |
| CEF Eastwood Park | 4% | 2% | 1% |
| CEF Styal | 0% | 0% | 1% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=2,538 o gyfnodau o gymorth)

**Atgyfeiriadau gan Cymru'n Gweithio**

4.25 Gwnaed cyfanswm o 3,581 o atgyfeiriadau i lwybr yn ystod cyfnodau o gymorth gan wasanaeth Cymru'n Gweithio rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2024. Yn debyg i nifer y cyfnodau o gymorth, cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau flwyddyn ar ôl blwyddyn o 394 yn 2021 i 22 i 1,102 yn 2022 i 23 ac yna i 2,085 yn 2023 i 24.

4.26 Mae Ffigur 4.6 yn dangos cyfran y cyfnodau o gymorth lle roedd atgyfeiriad wedi'i wneud i lwybr. Roedd bron tri chwarter y cyfnodau o gymorth (72%) yn cynnwys atgyfeiriad i'r prosiect carchardai [troednodyn39]. Dyma'r atgyfeiriad mwyaf a wnaed yn ystod cyfnodau o gymorth gan wasanaeth Cymru'n Gweithio mewn carchardai, a hynny o bell ffordd. Yr atgyfeiriadau mwyaf poblogaidd nesaf a wnaed oedd i ReAct [troednodyn40] (13%) ac asiantaethau cymorth (6%).

[39] Mae hwn yn atgyfeiriad gan wasanaeth Cymru'n Gweithio iddo'i hun am gymorth cyflogadwyedd yn y carchar.

[40] Mae hyn yn cynnwys ReAct III, Access a ReAct Plws

**Ffigur 4.6: Mae Ffigur 4.6 yn dangos cyfran y cyfnodau o gymorth lle roedd atgyfeiriad wedi'i wneud i lwybr**




Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=2,747 o gyfnodau o gymorth)
Nid yw'n arddangos y llwybrau atgyfeirio hynny gyda llai nag 1%.

4.27 Mae Ffigur 4.7 yn dangos cyfran y cyfnodau o gymorth lle roedd atgyfeiriad wedi'i wneud i lwybr. Dangosir y pum atgyfeiriad mwyaf poblogaidd. Cynyddodd cyfran y cyfnodau a oedd yn cynnwys atgyfeirio i brosiect mewn carchar flwyddyn ar ôl blwyddyn (o 52% yn 2021 i 22 i 66% yn 2022 i 23, ac yna i 83% yn 2023 i 24). Gwelwyd cynnydd hefyd o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer atgyfeiriadau yn oedd yn cael eu gwneud yn ystod cyfnodau o gymorth i ReAct, asiantaeth gymorth a chyflogaeth. Mae ychwanegu carfan troseddwyr at raglen ReAct yn 2022, pan ddaeth yn ReAct Plws, yn debygol o fod yn ffactor allweddol ar gyfer y cynnydd blynyddol yng nghyfran y cyfnodau o gymorth sy'n ymwneud ag atgyfeiriad i'r rhaglen.

**Ffigur 4.7: Cyfran y cyfnodau o gymorth bob blwyddyn lle roedd atgyfeiriad wedi'i wneud i lwybr**




Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=2,747 o gyfnodau o gymorth)
Yn dangos y 5 llwybr mwyaf poblogaidd ar gyfer atgyfeirio yn ystod cyfnod o gymorth.

4.28 Mae Tabl 4.8 yn dangos cyfran y cyfnodau o gymorth lle roedd atgyfeiriad wedi'i wneud i lwybr. Dangosir y pum llwybr atgyfeirio mwyaf poblogaidd. CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc oedd â'r gyfran leiaf o gyfnodau o gymorth o bell ffordd, lle gwnaed atgyfeiriad i brosiect mewn carchar (31%). Mae hyn yn wahaniaeth o 41 pwynt canran i'r gyfran nesaf isaf (72%) a geir yn CEF Berwyn.

4.29 CEF Styal (75%), CEF Brynbuga (53%) a CEF Eastwood Park (30%) oedd â'r gyfran fwyaf o gyfnodau o gymorth lle gwnaed atgyfeiriad i ReAct (75%). CEF Caerdydd, CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc a CEF Abertawe, sydd â'r gyfran uchaf o gyfnodau o gymorth, oedd â'r gyfran isaf o gyfnodau o gymorth lle gwnaed atgyfeiriad i ReAct.

4.30 CEF Abertawe oedd â'r gyfran fwyaf o gyfnodau o gymorth lle gwnaed atgyfeiriad i asiantaeth gymorth (26%). Mae hyn yn gyfran sy'n llawer uwch nag a geir yn y carchardai eraill.

**Tabl 4.8: Cyfran y cyfnodau o gymorth gan bob carchar lle roedd atgyfeiriad wedi'i wneud i lwybr.**

| Carchar | Prosiect mewn carchar | ReAct III, Access a ReAct Plws | Asiantaeth gymorth | Arall | Cyflogaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| CEF Caerdydd | 81% | 4% | 1% | 0% | 0% |
| CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc | 31% | 9% | 2% | 2% | 1% |
| CEF Prescoed | 90% | 26% | 0% | 12% | 9% |
| CEF Abertawe | 95% | 8% | 26% | 1% | 10% |
| CEF Berwyn | 72% | 17% | 4% | 20% | 3% |
| CEF Brynbuga | 88% | 53% | 0% | 11% | 3% |
| CEF Eastwood Park | 91% | 30% | 2% | 11% | 11% |
| CEF Styal | 92% | 75% | 0% | 8% | 4% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=2,538 o gyfnodau o gymorth)
Yn eithrio 148 o gyfnodau o gymorth lle roedd mai carchar oedd y ffynhonnell atgyfeirio, ond nid oedd y sefydliad a gofnodwyd yn un o'r carchardai gydag adnodd cynghorydd Cymru'n Gweithio wedi'i ddyrannu. Sylwch efallai na fydd y rhesi yn dod i gyfanswm o 100% gan y gellir atgyfeirio carcharor i sawl llwybr neu ddim.

### Canlyniadau

4.31 Cynghorodd Gyrfa Cymru nad ydynt yn cynnal gweithgareddau dilynol ar gyfer cwsmeriaid Cymru'n Gweithio [troednodyn 41]. Felly, dim ond pan fo rhyngweithio

[41] Heblaw am weithgareddau dilynol systematig ar gyfer cyfranogwyr y Warant i Bobl Ifanc, ReAct ac Access a gynhaliwyd yn y gorffennol.

pellach rhwng y cwsmer a gwasanaeth Cymru’n Gweithio, neu os bydd gwybodaeth am y cwsmer yn dod i law gan sefydliad partner y mae statws cwsmer Cymru’n Gweithio wedi'i ddiweddaru. O ystyried hyn, penderfynwyd y byddai data canlyniadau ar gyfer cwsmeriaid yn cael ei ddadansoddi ar gyfer cyfnodau o gymorth gyda'r meini prawf canlynol yn unig:

- pan roedd gwahaniaeth o ran statws rhwng ymuno a gadael cyfnod o gymorth, neu
- lle nad oedd gwahaniaeth o ran statws rhwng ymuno a gadael cyfnod o gymorth, ond roedd y statws cyfredol yn wahanol, neu
- pan nad oedd gwahaniaeth o ran statws rhwng ymuno a gadael cyfnod o gymorth ac nid oedd y statws presennol yn wahanol, ond roedd gan y statws presennol ddyddiad dechrau hwyrach na'r dyddiad cau ar gyfer y cyfnod o cymorth, felly roedd wedi'i ddiweddaru.

Roedd y meini prawf hyn yn cyfrif am 581 o 1,940 (30%) o gyfnodau o gymorth a oedd wedi dod i ben o leiaf chwe mis cyn i ddata gael ei echdynnu ar gyfer yr ymchwil hon ym mis Gorffennaf 2024 [troednodyn 42]. Cydnabyddir bod cyfran o lai na thraean o'r garfan yn gyfyngedig a dim ond y rhai sydd wedi ymgysylltu â chymorth pellach y mae'n eu cynnwys. Felly, bwriad y dadansoddiad yw darparu mewnwelediad rhannol i ganlyniadau defnyddwyr gwasanaeth Cymru’n Gweithio sydd yn y carchar.

4.32 Fel y dangosir gan Ffigur 4.8, roedd gan ddwy ran o bump (40%) o gyfnodau o gymorth statws di-waith chwe mis ar ôl gadael. Roedd gan 12% o gyfnodau o gymorth statws cyflogedig – 11% mewn cyflogaeth amser llawn ac 1% mewn cyflogaeth ran-amser – ac roedd gan 2% o gydnodau o gymorth statws hunangyflogedig chwe mis ar ôl gadael.

4.33 O ystyried y pryderon ynghylch sampl a allai fod yn rhagfarnllyd o bosibl, gwnaethom geisio cymharu data canlyniadau â data’r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer rhanbarth prawf Cymru. Nid yw cyfran yr unigolion yn nata'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a gyrchodd wasanaeth Cymru’n Gweithio yn y carchar yn hysbys, er bod yr ymchwil hon yn awgrymu bod cynghorwyr Cymru’n Gweithio’n ceisio cysylltu â phob carcharor o fewn 12 wythnos ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae data canlyniadau cyflogaeth troseddwyr, a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn dangos bod 28% o droseddwyr yn rhanbarth brawf Cymru rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2024 yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig chwe mis ar ôl cael eu rhyddhau. Fodd bynnag, mae'r cyfrifiad hwn yn eithrio'r rhai nad ydynt ar gael ar gyfer gwaith

[42] Nid oedd gan y 70% sy'n weddill o gyfnodau o gymorth â statws chwe mis ar ôl gadael unrhyw arwydd ei fod wedi cael ei ddiweddaru, a’i fod heb gael ei lenwi ymlaen llaw yn seiliedig ar y statws adeg ymuno.

a'r rhai sydd â statws anhysbys. Felly, ar ôl tynnu'r rhai nad ydynt ar gael ar gyfer gwaith o gyfrifiad Cymru’n Gweithio, mae data canlyniadau Cymru’n Gweithio yn dangos bod ffigur cymaradwy o 25% yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig ar chwe mis ar ôl cyfnod o gymorth. Rhaid ychwanegu cafeat at hyn gan gydnabod nad yw 'chwe mis ar ôl cyfnod o gymorth' yn uniongyrchol gymaradwy i fesurau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sef 'chwe mis ar ôl cael ei ryddhau'.

**Ffigur 4.8: Dadansoddiad is-sampl - statws chwe mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth**




Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru’n Gweithio (n=581 o gyfnodau o gymorth)
Mae'r graff hwn ond yn rhoi mewnwelediad rhannol i ganlyniadau defnyddwyr gwasanaeth Cymru’n Gweithio mewn carchardai (30% o gyfnodau o gymorth a oedd wedi dod i ben o leiaf chwe mis cyn i ddata gael ei echdynnu ar gyfer yr ymchwil hon ym mis Gorffennaf 2024). Nid yw Gyrfa Cymru yn cynnal gweithgareddau dilynol i gwsmeriaid, felly mae hyn ond yn cynnwys cyfnodau o gymorth lle mae gan y cwsmer Cymru’n Gweithio statws sydd wedi'i ddiweddaru oherwydd rhyngweithio pellach rhwng cwsmer Cymru’n Gweithio a gwasanaeth Cymru’n Gweithio neu os bydd gwybodaeth am gwsmer Cymru’n Gweithio yn dod i law gan sefydliad partner.
Nid yw'n dangos unrhyw statws a oedd yn ganlyniad i lai nag 1% o gyfnodau o gymorth - mae hyn yn cynnwys bod yn segur, addysg bellach, addysg uwch a gwaith gwirfoddol. Ceir rhagor o wybodaeth am statws yn nhabl B.3.

4.34 Mae Tabl 4.9 yn dangos y statws chwe mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth yn ôl blwyddyn. Yn ystod y cyfnod adrodd, gostyngodd cyfran y cyfnodau o gymorth gyda statws cyflogedig chwe mis ar ôl gadael flwyddyn ar ôl blwyddyn. I'r gwrthwyneb, cynyddodd cyfran y cyfnodau o gymorth gyda statws di-waith chwe mis ar ôl gadael flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dyma'r duedd i'r gwrthwyneb i'r hyn a geir yn nata canlyniadau cyflogaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer yr un cyfnod cyfeirio yn rhanbarth brawf Cymru. Cynyddodd cyfran cyfnodau o gymorth â statws economaidd anweithgar chwe mis ar ôl gadael flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond bu gostyngiad sylweddol yng nghyfran y cyfnodau o gymorth gyda statws 'ddim ar gael ar gyfer addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant' chwe mis ar ôl gadael yn 2023 i 24 (gan gyfuno'r ddau statws, roedd gostyngiad o 8 pwynt canran wrth gymharu 2021 i 22 a 2023 i 24). Nid yw data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a data Cymru'n Gweithio yn uniongyrchol gymharol wrth ystyried canlyniadau; tra bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn edrych ar ganlyniadau 6 mis ar ôl i garcharor gael ei ryddhau, mae data Cymru'n Gweithio yn seiliedig ar yr amser ers y cyfnod olaf o gymorth. I'r rhan fwyaf o gwsmeriaid, bydd eu cyfnod olaf o gymorth yn y carchar yn agos at ddiwedd eu dedfryd; fodd bynnag, gall cyfnod o gymorth barhau ar ôl cael eu rhyddhau i'r gymuned neu ddod i ben rywbryd cyn iddynt gael eu rhyddhau.

4.35 Wrth gynnal y dadansoddiad, gellid arsylwi bod gan gyfran uwch o'r cyfnodau o gymorth â statws chwe mis ar ôl gadael yn 2023 i 24 statws gwahanol adeg gadael, o gymharu â'r adeg ymuno, na'r rhai yn 2021 i 22 a 2022 i 23 (33% o gymharu â 15% a 15% yn y drefn honno). Dylid ystyried hyn yn y cyd-destun bod cyfran is o gyfnodau o gymorth yn 2023 i 24 wedi dod i ben chwe mis cyn i'r data gael ei ddarparu ar gyfer yr ymchwil hon [troednodyn 43].

4.36 O ystyried argaeledd cyfyngedig data canlyniadau, nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau ystyrlon ar draws carchardai neu edrych ar ddadansoddiadau yn ôl nodweddion.

**Tabl 4.9: Dadansoddiad is-sampl - statws chwe mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth**

| Statws | 2021 i 22 (n=102) | 2022 i 23 (n=247) | 2023 i 24 (n=232) |
|---|---|---|---|
| Statws Cyfredol Anhysbys | 3% | 3% | 3% |
| Economaidd anweithgar | 1% | 2% | 16% |

[43] Roedd hyn oherwydd nad oedd y cyfnod o gymorth wedi dod i ben eto, neu nad oedd wedi bod yn chwe mis ers iddo ddod i ben pan echdynnwyd y data ar gyfer yr ymchwil hon (ym mis Gorffennaf 2024). Gweler yr adran fethodoleg i gael mwy o fanylion.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflogedig | 17% | 13% | 9% |
| Ddim ar gael ar gyfer addysg, cyflogaeth na hyfforddiant | 41% | 45% | 18% |
| Rhaglen gyflogadwyedd neu sgiliau arall LIC | 0% | 1% | 0% |
| Yn byw y tu allan i Gymru | 1% | 0% | 3% |
| Hunangyflogedig | 3% | 1% | 2% |
| Yn ddi-waith | 33% | 34% | 48% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru’n Gweithio (n=581 o gyfnodau o gymorth)

Mae'r graff hwn ond yn rhoi mewnwelediad rhannol i ganlyniadau defnyddwyr gwasanaeth Cymru’n Gweithio mewn carchardai (30% o gyfnodau o gymorth a oedd wedi dod i ben o leiaf chwe mis cyn i ddata gael ei echdynnu ar gyfer yr ymchwil hon ym mis Gorffennaf 2024). Nid yw Gyrfa Cymru yn cynnal gweithgareddau dilynol i gwsmeriaid, felly mae hyn ond yn cynnwys cyfnodau o gymorth lle mae gan y cwsmer Cymru’n Gweithio statws sydd wedi'i ddiweddaru oherwydd rhyngweithio pellach rhwng cwsmer Cymru’n Gweithio a gwasanaeth Cymru’n Gweithio neu os bydd gwybodaeth am gwsmer Cymru’n Gweithio yn dod i law gan sefydliad partner.
Nid yw'n dangos unrhyw statws a oedd yn ganlyniad i lai nag 1% o gyfnodau o gymorth - mae hyn yn cynnwys bod yn segur, addysg bellach, addysg uwch a gwaith gwirfoddol. Ceir rhagor o wybodaeth am statws yn nhabl B.3.
% o’r cyfnodau sydd â statws chwe mis ar ôl gadael wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad: 2021 i 22 = 102/419 (24%), 2022 i 23 = 247/932 (27%) a 2023 i 24 = 232/589 (39%).

### Cymorth gwasanaeth dilynol

4.37 Roedd cyfanswm o 476 o gyfnodau o gymorth gyda chyn-ddefnyddwyr gwasanaeth carchardai yn y gymuned gan Cymru’n Gweithio rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2024. Dilynodd y cyfnodau dilynol hyn o gymorth [troednodyn 44] lwybr i fyny tebyg flwyddyn ar ôl blwyddyn i'r cyfnodau o gymorth yn y carchar: roedd 106 o gyfnodau yn 2021 i 22, 125 o gyfnodau yn 2022 i 23 a 245 o gyfnodau yn 2023 i 24.

4.38 Roedd ffynhonnell atgyfeiriadau ar gyfer cyfnodau dilynol o gymorth gan wasanaeth Cymru’n Gweithio yn fwy amrywiol nag ar gyfer cyfnodau o gymorth yn y carchar. Y ffynhonnell atgyfeirio fwyaf poblogaidd ar gyfer cyfnodau dilynol o gymorth oedd hunan-atgyfeiriadau (47%). Mae hyn yn debyg i'r ganran a adroddwyd ar gyfer

[44] Cyfnod dilynol o gymorth yw cymorth Cymru’n Gweithio sydd wedi digwydd yn y gymuned ar ôl 'cyfnod o gymorth yn y carchar' blaenorol. Gallai fod yn syth ar ôl i garcharor gael ei ryddhau o'r carchar neu rywbryd yn ddiweddarach. Mae unrhyw gyfnodau pellach o gymorth yn y carchar ar ôl ail-garcharu yn cael eu categoreiddio fel 'cyfnodau o gymorth yn y carchar’.

gwasanaeth ehangach Cymru'n Gweithio [troednodyn 37]. Fodd bynnag, roedd cyfran yr atgyfeiriadau gan y gwasanaeth prawf yn llawer uwch, ar 21%.

4.39 Mae Tabl 4.10 yn dangos trosi cyfnodau o gymorth yn y carchar wedi'u troi'n gyfnodau dilynol o gymorth yn ôl grŵp oedran. Mae un rhan o bump (20%) o gyfnodau o gymorth yn y carchar lle mae'r cwsmer rhwng 25 a 34 oed yn mynd ymlaen i gyrchu cyfnod dilynol o gymorth. Y rhai rhwng 16 a 18 oed oedd â'r gyfradd leiaf o gyfnodau o gymorth yn y carchar a aeth ymlaen i gael cymorth dilynol (9% yn y drefn honno). Nid oedd yn bosibl adrodd ar bobl dan 16 oed oherwydd maint sampl bach iawn.

**Tabl 4.10: Cyfnodau o gymorth yn y carchar wedi'u troi'n gyfnodau dilynol o gymorth yn ôl grŵp oedran**

| Grŵp oedran | Cyfnodau dilynol o gymorth (n=476) | Cyfnodau o gymorth yn y carchar (n= 2747) | % |
|---|---|---|---|
| 16 i 18 | 5 | 55 | 9% |
| 19 i 24 | 62 | 437 | 14% |
| 25 i 34 | 222 | 1,128 | 20% |
| 35 i 49 | 164 | 949 | 17% |
| 50+ | 23 | 176 | 13% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=476 o gyfnodau dilynol o gymorth a 2,747 o gyfnodau o gymorth mewn carchar). Mae'r data ar gyfer plant <16 oed wedi'i atal oherwydd bod N < 5. Sylwch y gall cwsmer gael un cyfnod o gymorth yn y carchar a mynd ymlaen i gael sawl cyfnod dilynol o gymorth, sydd felly'n dylanwadu ar y gyfradd drosi. Yn yr un modd, gall cwsmer gael sawl cyfnod o gymorth yn y carchar ac un cyfnod dilynol o gymorth.

4.40 Mae Tabl 4.11 yn dangos cyfnodau o gymorth mewn carchar sydd wedi'u troi'n gyfnodau dilynol o gymorth yn ôl rhyw. Roedd gan fenywod gyfradd trosi lai a aeth ymlaen i gael mynediad at gymorth pellach gan Cymru'n Gweithio yn y gymuned, na dynion. Mae hyn yn syndod o ystyried bod menywod yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith chwe mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth yn y carchar na dynion (55% o gymharu â 39%); fodd bynnag, roedd menywod hefyd yn fwy tebygol o gael eu

cyflogi chwe mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth yn y carchar na dynion (18% o gymharu â 12%) [troednodyn 45].

**Tabl 4.11: Cyfnodau o gymorth mewn carchar wedi'u troi'n gyfnodau dilynol o gymorth yn ôl rhyw**

| Rhyw | Cyfnodau dilynol o gymorth | Cyfnodau o gymorth yn y carchar | % |
|---|---|---|---|
| Benyw | 7 | 95 | 7% |
| Gwryw | 465 | 2,649 | 18% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=476 o gyfnodau dilynol o gymorth a 2,747 o gyfnodau o gymorth mewn carchar). Mae data ar gyfer rhyw a gofnodwyd fel 'arall' yn cael ei atal oherwydd bod N < 5.

Sylwch y gall cwsmer gael un cyfnod o gymorth yn y carchar a mynd ymlaen i gael sawl cyfnod dilynol o gymorth, sydd felly'n dylanwadu ar y gyfradd drosi. Yn yr un modd, gall cwsmer gael sawl cyfnod o gymorth yn y carchar ac un cyfnod dilynol o gymorth.

4.41 Mae Tabl 4.12 yn dangos cyfnodau o gymorth mewn carchar sydd wedi'u troi'n gyfnodau dilynol o gymorth yn ôl anabledd. Roedd y gyfradd drosi, ar gyfer cyfnodau o gymorth mewn carchar a aeth ymlaen i gyfnodau dilynol o gymorth, lle dywedodd y cwsmer fod ganddo anabledd 12 pwynt canran yn llai nag ar gyfer cwsmeriaid heb anabledd (19% o gymharu â 7%). Mae hyn yn dangos bod y rhai ag anabledd yn llai tebygol o gael mynediad at gymorth pellach gan y gwasanaeth ar ôl i'w cymorth yn y carchar ddod i ben. Mae dadansoddiad pellach yn dangos bod y rhai ag anabledd yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar neu ddim ar gael ar gyfer addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant chwe mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth yn y carchar na'r rhai heb anabledd (69% o gymharu â 37%) [troednodyn46].

[45] % o'r cyfnodau â statws chwe mis ar ôl gadael wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad:: n=11/71 (15%) benywod, n=570/1,866 (31%) gwrywod.

[46] % o'r cyfnodau â statws chwe mis ar ôl gadael wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad:: n=80/238 (34%) benywod, n=493/1,665 (30%) gwrywod.

**Tabl 4.12: Cyfnodau o gymorth mewn carchar wedi’u troi’n gyfnodau dilynol o gymorth yn ôl anabledd**

| Anabledd | Cyfnodau dilynol o gymorth | Cyfnodau o gymorth yn y carchar | % |
|---|---|---|---|
| (heb ei gofnodi) | 2 | 14 | 14% |
| Nac oes | 444 | 2,361 | 19% |
| Ddim yn hysbys eto | 3 | 6 | 50% |
| Mae'n well ganddo beidio â dweud | 3 | 31 | 10% |
| Oes | 24 | 335 | 7% |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru – Gwybodaeth fonitro Cymru’n Gweithio (n=476 o gyfnodau dilynol o gymorth a 2,747 o gyfnodau o gymorth mewn carchar).
Sylwch y gall cwsmer gael un cyfnod o gymorth yn y carchar a mynd ymlaen i gael sawl cyfnod dilynol o gymorth, sydd felly’n dylanwadu ar y gyfradd drosi. Yn yr un modd, gall cwsmer gael sawl cyfnod o gymorth yn y carchar ac un cyfnod dilynol o gymorth.

## 5. Adborth gan gynghorwyr Cymru’n Gweithio

5.1 Mae'r bennod hon yn adlewyrchu ar adborth gan gynghorwyr Cymru’n Gweithio sy'n gweithio mewn carchardai ledled Cymru a dau garchar i fenywod yn Lloegr i roi mewnwelediad i sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, unrhyw rwystrau neu heriau, atgyfeiriadau, ac unrhyw gyswllt â sefydliadau trydydd parti, yn fewnol ac yn allanol.

**Darparu gwasanaethau**

5.2 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddisgrifio eu rôl fel cynghorwyr Cymru’n Gweithio. Mae eu rôl yn cynnwys:

- codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth;
- gwybodaeth, cyngor ac arweiniad;
- agor llwybrau i garcharorion ar gyfer yr adeg pan gânt eu rhyddhau;
- meithrin perthynas â'r carcharorion;
- cymorth ‘drwy’r giât’;
- nodi a deall anghenion a rhwystrau carcharorion;
- a chyfeirio carcharorion at gymorth pellach yn y gymuned.

5.3 Wrth edrych yn fwy penodol ar sut roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan gynghorwyr, roedd amrywiaeth o ddulliau a ddaeth i'r amlwg yn y cyfweliadau. Yn gyntaf, cynnal sesiynau yn y carchar. Defnyddir sesiynau grŵp i siarad am 'swyddi, ysgrifennu CV neu sgiliau cyflogadwyedd cyffredinol'. Maent yn gyfle i'r cynghorwyr roi rhywfaint o wybodaeth ragarweiniol i gynifer o garcharorion â phosibl na allant bob amser ei roi mewn sesiynau un-i-un oherwydd y galw uchel.

> 'Ddoe ddiwethaf, cawsom sesiwn diwrnod cyfan lle gwnaethom wahodd pob ymadawr o fis Mawrth, sef y dynion sy'n mynd i adael ym mis Mawrth, i ddod i un o'n gweithdai, i siarad â mi, i siarad â DWP (yr Adran Gwaith a Phensiynau) a dweud iawn, os nad ydym wedi eich gweld chi, pam nad ydym wedi eich gweld chi a beth yw eich cynlluniau?'

5.4 Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, dywedodd un cyfwelai ei fod wrthi’n ceisio datblygu mwy o sesiynau penodol ar hyn o bryd, er enghraifft, ar gyfer pobl â chyflyrau niwroamrywiol. Mae hyn mewn ymgais i wneud y sesiynau'n fwy cymwynasgar, wrth hefyd gwmpasu'r materion y gallent eu hwynebu o bosib pan fyddant yn ceisio dod o hyd i waith.

5.5 Ynghyd â sesiynau grŵp, cynhaliwyd sesiynau un-i-un hefyd gan y rhan fwyaf o'r cynghorwyr. I rai carcharorion, byddai hwn yn amgylchedd mwy diogel lle gallent ddatgelu mwy o wybodaeth am eu nodau ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Yn ogystal, mae hefyd yn caniatáu i gynghorwyr deilwra eu cymorth i anghenion yr unigolion hyn.

5.6 Dull arall o gyflwyno oedd cynnal ffeiriau cyflogaeth. Mae'r rhain, yn ôl un cyfwelai, yn cael eu cydlynu gan arweinydd cyflogaeth y carchar; fodd bynnag, mae cynghorwyr yn bresenol i hysbysebu Cymru'n Gweithio a rhoi gwybod i garcharorion am eu gwasanaeth. Mae'r ffeiriau cyflogaeth hyn hefyd yn cysylltu â gwaith ymgysylltu á chyflogwyr a'r cyfleoedd y mae Cymru'n Gweithio yn eu darparu i garcharorion.

5.7 Wrth ystyried gwaith ymgysylltu â chyflogwyr, tynnodd cynghorwyr sylw at sut maen nhw'n ceisio cysylltu eu hunain â llawer o sefydliadau, i agor cynifer o gyfleoedd â phosibl i'r carcharorion. Mae hyn hefyd yn eu helpu i fod yn ymatebol o ran eu dull gweithredu, er enghraifft, pe bai carcharor yn cael ei ryddhau'n gynnar, mae gan gynghorwyr y cysylltiadau cryf o fewn y diwydiant i barhau i gefnogi'r carcharor hwnnw.

5.8 Mae llawer o gyflogwyr hefyd yn mynd i mewn i'r carchardai ac yn cyfweld â'r carcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt geisio cael cynnig swydd cyn iddynt gael eu rhyddhau.

> 'Mae gennym ni arweinwyr cyflogaeth carchar, sy'n gweithio yn y carchar. Felly, er enghraifft, fe wnaethon nhw ddod â [cwmni mawr] i gyfweld â phobl yn y ddalfa ar gyfer swyddi gwasanaeth i gwsmeriaid.'

Lleoliad y Carchar

5.9 Gan ganolbwyntio'n benodol ar y carchar lle mae cynghorwyr yn cyflwyno gwasanaeth Cymru'n Gweithio, roedd manteision ac anfanteision a nodwyd gan y cynghorwyr. Dywedodd un cynghorydd sut mae darparu'r gwasanaeth yn y carchar wedi caniatáu i berthynas gref gael ei hadeiladu rhyngddo ef a'r carcharorion. Mae'r cynghorwyr yn awgrymu eu bod yn tawelu meddyliau carcharorion, yn enwedig y rhai yn yr Uned Carcharorion Agored i Niwed (VPU) trwy siarad am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

5.10 Gyda ffocws ar ymddiriedaeth, o gymharu â'r cymorth cymunedol, roedd un cynghorydd yn cydnabod ei fod mewn sefyllfa freintiedig o ran darparu'r gwasanaeth yn y carchar oherwydd, yn eironig, pan fydd unigolyn yn mynd i mewn i'r carchar, maen nhw'n dod yn unigolyn gonest iawn ac yn dweud popeth wrth y cynghorwyr oherwydd 'does ganddyn nhw ddim byd i'w golli'. O gymharu ag

unigolyn sy'n ceisio cymorth yn y gymuned, mae hanes yr unigolyn hwnnw fel arfer yn anhysbys.

5.11 Wrth archwilio darpariaeth y gwasanaeth mewn carchardai, myfyriodd llawer o gynghorwyr ar orfod darparu'r gwasanaeth ar adenydd y carchar yn uniongyrchol yn hytrach na chael lle penodol y byddai carcharorion yn dod iddo pan fyddent am gael cymorth. Roedd gorfod darparu'r gwasanaeth ar yr adenydd, mewn rhai amgylchiadau, yn ei gwneud hi'n eithaf anodd oherwydd nad yw'n ofod cyfrinachol. Fodd bynnag, mynegodd llawer o gynghorwyr bwysigrwydd mynd am dro o gwmpas adenydd carchardai o ran hysbysebu eu brand a chefnogi cynifer o garcharorion ag y gallant.

> 'Rwy'n tueddu i fynd ar yr adenydd a chyfweld ar yr adenydd... mae'n rhaid i chi fynd allan a chael eich gweld a mynd ar yr adenydd.'

Sut mae'r gwasanaeth wedi newid ers 2019?

5.12 Dechreuodd Cymru’n Gweithio ei waith mewn carchardai yn 2019. Roedd gan yr ymchwilwyr ddiddordeb yn y ffordd y gallai'r gwasanaeth fod wedi newid ers hynny, ac a yw wedi gwella ai peidio. Ym mhob un o’r cyfweliadau, bu cynghorwyr yn siarad am newid cadarnhaol yn unig ers 2019, gan fynegi sut maent yn 'ceisio diweddaru a gwella ein gwasanaethau yn gyson'. Maent yn gwneud hyn trwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd, rheolaeth dda a thrwy gysylltu â’r gwasanaeth prawf i sicrhau bod carcharorion yn fodlon cyn iddynt gael eu rhyddhau.

> 'fe wnaethon ni greu'r hyb cyflogaeth o'r dechrau, ac aeth e o nerth i nerth, i’r graddau y barnwyd taw ni oedd yr hyb cyflogaeth a ddangosodd arferion gorau ar draws y DU gyfan'

5.13 Ar draws y cyfweliadau, nodwyd bod y cynghorwyr yn angerddol iawn am eu swydd ac eisiau 'gweld pobl sy'n gadael y carchar yn newid er gwell'. Wrth wneud hynny, yn hytrach na dim ond rhoi gwybodaeth a thaflen i garcharorion, bydd yr ymgynghorydd yn parhau i'w cefnogi drwy gydol eu dedfryd ac yna i mewn i apwyntiad cymunedol.

> 'Rwy'n meddwl... ein bod ni wedi newid a dwi'n meddwl ein bod ni wedi newid y ffordd mae pobl yn edrych ar gyn-droseddwyr hefyd'

5.14 Soniwyd am y defnydd o ReAct hefyd gan y rhan fwyaf o’r cyfweleion. Awgrymodd un cyfwelai fod y gwasanaeth wedi datblygu'n gadarnhaol, ers iddo ddechrau yn 2019, a bod mynediad at gyllid ReAct wedi cynyddu'r amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi i garcharorion, felly maent yn llai tebygol o ddychwelyd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Gwasanaeth gwerthfawr

5.15 Awgrymodd cynghorwyr Cymru'n Gweithio fod eu gwasanaeth yn werthfawr o gymharu â gwasanaethau cyflogadwyedd eraill yn y carchar oherwydd ei hyblygrwydd, ei arweiniad manwl a'i drefniadau rhwydweithio.

5.16 O ran hyblygrwydd, gall y cynghorwyr fod yn unrhyw le sydd eu hangen. Yn enwedig mewn carchardai, mae'n bwysig bod gan gynghorwyr Cymru'n Gweithio yr hyblygrwydd i addasu'r gwasanaeth fel bod carcharorion yn cael y cymorth cywir sy'n addas iddynt. Mae hyn yn caniatáu mwy o archwilio yn hytrach na gorfod cadw at fframwaith llym, sydd yn yr achos hwn yn werthfawr i'r carchar a'r carcharor.

5.17 Yn ogystal, nododd llawer o gynghorwyr bwysigrwydd yr arweiniad maent yn ei ddarparu. O gymharu â sefydliadau eraill, yn ôl yr ymgynghorwyr, mae Cymru'n Gweithio yn frand dibynadwy sy'n cynnig y set gyntaf o arweiniad a chyngor i bob carcharor fel ei fod wedi'i sefydlu'n dda, ac mae carcharorion yn teimlo fel bod ganddynt fwy o ddealltwriaeth o'r hyn maen nhw eisiau ei wneud a sut maen nhw'n mynd i'w gyrraedd.

5.18 Yn olaf, mae gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill yn agwedd hynod werthfawr ar wasanaeth Cymru'n Gweithio. Disgrifiodd un cyfwelai'r gwasanaeth fel 'pwynt canolog pob atgyfeiriad'. Mae cael y broses atgyfeirio hon yn bwysig er mwyn sicrhau bod carcharorion yn mynychu'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu nod terfynol ac mae cael cysylltiadau â'r gwahanol rwydweithiau cymorth hyn yn helpu carcharorion i gael taith fwy llyfn wrth fynd yn ôl ar eu traed.

5.19 Gan ganolbwyntio ar garcharau i fenywod yn Lloegr sy'n carcharu menywod sy'n hanu o Gymru, mae'r cynghorwyr yn awgrymu bod gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn hynod werthfawr gan fod y carcharorion benywaidd o Gymru'n gwerthfawrogi presenoldeb rhywun o Gymru sy'n dod i mewn i siarad â nhw. O ran y cynnig dwyieithog a ddarperir gan Cymru'n Gweithio, mae rhai carcharorion benywaidd yn gwerthfawrogi cael sgwrs yn eu hiaith frodorol.

Anghenion carcharorion

5.20 O ran addasu'r gwasanaeth i weddu i anghenion penodol carcharorion, esboniodd un cynghorydd sut mae'n ceisio addasu'r gwasanaeth gymaint â phosibl trwy feithrin cysylltiadau â sefydliadau eraill i helpu i ddeall sut mae'r carcharor yn cael ei weld a sut y byddai ei drosedd yn effeithio ar gyfleoedd yn y dyfodol.

5.21 Esboniodd cynghorydd arall sut mae'n hidlo'r carcharorion y gall eu helpu ar unwaith gyda'r rhai sydd angen cymorth gan wasanaethau eraill, fel iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, neu'r rhai nad ydynt yn fodlon ymgysylltu ac yna'n ceisio gwneud yn siŵr eu bod yn gweld yr unigolyn cywir ar gyfer eu hanghenion penodol. Felly, trwy gyfweliadau lluosog, bydd y cynghorydd yn creu dealltwriaeth o anghenion yr unigolyn ac yn teilwra'r cymorth sydd fwyaf addas i'r carcharor

penodol hwnnw ac yna'n ei gyfeirio at y cymorth neu’r hyfforddiant cywir gan ba sefydliad bynnag sydd fwyaf addas.

5.22 Addasiad arall a nodwyd gan gynghorydd oedd gorfod teilwra eu hiaith i weddu i'r carcharorion. Er enghraifft, gorfod defnyddio geirfa symlach oherwydd nad yw rhai pobl erioed wedi profi gwaith o'r blaen, neu wedi gadael yr ysgol neu addysg yn gynnar iawn, felly heb sgiliau llythrennedd.

**Rhwystrau**

Gwasanaethau TG

5.23 Drwy gydol y cyfweliadau á chyfranogwyr, nodwyd mai mynediad at wasanaethau TG oedd un o'r prif rwystrau i ddarparu'r gwasanaeth o fewn carchardai, o gymharu â'r gymuned. Nid yw cynghorwyr yn gallu mynd â'u gliniaduron ar yr adenydd, felly mae'n rhaid iddynt gymryd nodiadau ar bapur ac yna diweddaru'r data unwaith y byddant yn ôl yn eu swyddfa.

5.24 Nododd y rhai sy'n gweithio mewn adeiladau carchar mwy hanesyddol eu bod yn cael trafferth gydag ymarferoldeb eu swyddfeydd. Er enghraifft, cael gwifrau yn croesi’r ystafell ac yn mynd ar draws sgriniau gliniaduron. Nid yw hyn yn darparu'r amgylchedd mwyaf addas i weithio.

> 'Os ydw i'n ei blygio i mewn, yna mae gen i geblau ymestyn yn mynd ar draws y sgrin, dydy hynny ddim yn ddelfrydol.'

Nodweddion Carcharorion

5.25 Dywedodd cynghorwyr Cymru’n Gweithio fod opsiynau gyrfa carcharor yn gyfyngedig mewn rhai amgylchiadau, gan ddibynnu ar eu heuogfarn. Er enghraifft, ni chaniateir i'r rhai sy'n cael eu dyfarnu'n euog o drosedd rhyw weithio mewn amgylchedd gyda phlant. O ganlyniad i hyn, roedd bron pob cyfwelai’n cydnabod bod troseddwyr rhyw wedi bod yn arbennig o anodd ymgysylltu â nhw oherwydd lle mae rhai wedi rhoi eu bryd ar swyddi penodol na allant eu gwneud, gall effeithio ar eu hunan-barch.

> 'Os ydyn ni’n gweithio gyda rhywun a allai fod yn droseddwr rhyw cofrestredig bellach, er enghraifft, efallai y bydd yn awyddus i weithio yn y diwydiant traciau rheilffordd. Wel, mae yna lawer o ddarparwyr hyfforddiant traciau rheilffordd na fyddant yn darparu'r hyfforddiant iddyn nhw'

5.26 Roedd carcharorion ifanc hefyd yn cael eu cydnabod gan gynghorwyr fel grŵp anodd i ymgysylltu ag ef oherwydd pwysau cymdeithasol yn eu hamgylchedd cyfagos. Er enghraifft, pe baent mewn sesiynau grŵp, byddent yn dadymafael oherwydd eu bod eisiau ffitio i mewn gyda'r carcharorion ifanc eraill yn y carchar;

fodd bynnag, ar ôl iddynt gael eu symud i'r carchar i oedolion, roedd llawer mwy o ymgysylltiad oherwydd bod y dynion hynny yn gefnogol i'r gwasanaeth.

> 'Felly, roedd gen i fachgen a oedd i lawr yn y gwasanaeth troseddu ieuenctid, a oedd wedi dadymafael, ac yna cyn gynted ag y symudodd e i'r brif uned, roedd e fel cymeriad gwahanol. Felly, rwy'n meddwl weithiau, dim ond eu hamgylchedd, dych chi'n gwybod, mae'n wirioneddol hawdd i'r amgylchedd effeithio arnyn nhw'

5.27 Fodd bynnag, esboniodd cynghorwyr sut y dylid targedu carcharorion ifanc yn arbennig ar gyfer y gwasanaeth hwn oherwydd mai nhw yw cenhedlaeth y dyfodol - sef y rhai mwyaf tebygol o gael eu rhyddhau chael bywyd hirach y tu allan i'r carchar, felly mae'n hynod bwysig eu bod nhw'n ymgysylltu â'r farchnad lafur. Felly, mae'r gwasanaeth yn rhoi cyfle i garcharorion ifanc gael yr arfau y mae arnynt eu hangen i symud ymlaen.

> 'Rwy'n gwybod ei bod hi'n hawdd troi pobl ifanc o gwmpas mewn llawer o ffyrdd, felly os ydych chi'n eu gweld nhw yn 18, 19, 20 oed, yn aml maen nhw'n ymwybodol iawn o weithio gyda Cymru'n Gweithio. Maen nhw'n awyddus ac maen nhw mewn sefyllfa lle gallwn ni newid pethau.'

5.28 Ar ôl cael eu rhyddhau, awgrymodd cynghorwyr mai pobl ifanc yw'r rhai sydd wedi dadymafael fwyaf â gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn y gymuned fel arfer.

> 'Weithiau, pobl ifanc yw'r mwyaf, yr hawsaf i gael canlyniadau gyda nhw, ond gallant fod y bobl anoddaf i weithio gyda nhw oherwydd pan fyddant yn cael eu rhyddhau, maen nhw'n llawer llai tebygol o ymgysylltu â ni.'

5.29 Oherwydd natur poblogaeth y carchar, mae cynghorwyr Cymru'n Gweithio yn dod ar draws carcharorion sy'n hanu o Loegr y maent hefyd yn cynnig gwasanaeth iddynt. Fodd bynnag, esboniodd cynghorwyr fod camddealltwriaeth wedi bod ymhlith carcharorion sy'n hanu o Loegr, sef nad yw'r gwasanaeth ar gael iddynt, oherwydd nad ydynt yn gymwys i gael llawer o'r cyllid sydd ar gael i garcharorion sy'n hanu o Gymru yn unig.

> 'Os yw carcharor o Loegr mewn carchar yng Nghymru, byddan nhw eisiau ymgysylltu â ni er mwyn i ni allu gwneud cymaint gyda nhw, ond nawr, oherwydd y cyllid, rwy'n credu eu bod nhw'n siarad ymysg ei gilydd ac yna mae'r neges hon wedi mynd allan nad yw Cymru'n Gweithio'n helpu carcharorion [Seisnig] mewn gwirionedd'

> 'Fe wnaethon ni fynd trwy gyfnod bach lle roedd y carcharorion o Loegr yn dweud, fyddwch chi' ddim yn gweithio gyda ni, ond nid yw'n wir; yr unig ran ohono na allwn ni ei wneud yw'r cyllid'

5.30 Mae ymgysylltu â chynghorwyr Cymru’n Gweithio yn anodd ei fesur o ran rhyw oherwydd mai dim ond unwaith y mis y mae’r carchardai i fenywod yn cael ymweliad gan gynghorydd. Er gwaethaf hyn, canfuwyd bod carcharorion benywaidd yn dangos llawer o ddiddordeb mewn cael arweiniad gyrfa.

> 'Rwy'n credu nad ydym yn cael yr union un ymgysylltiad neu'r union un canlyniadau ag yr ydym gyda'r ystâd carchardai i ddynion oherwydd nad oes gennym ddigon o ymyriadau gyda nhw'.

> 'Mae diffyg hyfforddiant galwedigaethol yno... does dim llawer, os o gwbl, sy'n digwydd yno (Eastwood Park) yn enwedig ar gyfer, byddwn i'n dweud yn ôl pob tebyg tua 50% o'r merched yno eisiau swyddi llafurio ym maes adeiladu, maen nhw eisiau rolau ymarferol a chorfforol, dydyn nhw ddim eisiau bod yn gwneud celf ewinedd neu ddysgu sut i lanhau. Rwy'n credu nad yw'n iawn nad yw'r math hwnnw o hyfforddiant ar gael yn y byd sydd ohoni'.

Mae carcharorion yn cymryd rhan mewn 'unrhyw beth a phopeth'

5.31 Mae carcharorion yn cael eu hannog i gyrchu addysg/hyfforddiant fel rhan o weithgarwch pwrpasol. Fodd bynnag, mae rhai o'r cynghorwyr yn awgrymu bod carcharorion yn ceisio cymryd rhan mewn cynifer o raglenni hyfforddi â phosibl er mwyn rhoi'r cyfleoedd gorau posibl iddynt pan fyddant yn cael eu rhyddhau, nad yw rhai ohonynt bob amser yn briodol ar gyfer dyfodol y carcharor. Felly, mae Cymru’n Gweithio yn gweithio gyda charcharorion i sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r dysgu/cyrsiau priodol sy'n arwain at ganlyniadau cyflogaeth ac, os cânt eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, yna maent yn cael eu hasesu ar gyfer priodoldeb cyn eu hatgyfeirio.

5.32 Dywedodd un cynghorydd sut mae’n hidlo trwy raglenni, fel Cyfrifon Dysgu Personol (PLA), i wneud yn siŵr eu bod yn uwchsgilio ac yn ailhyfforddi'r unigolion sydd â ffocws ar yrfa. Awgrymodd cynghorydd arall sut mae’n gwneud yn siŵr ei fod yn cael cyfarfod cychwynnol gyda charcharorion i asesu eu hanghenion cyn eu cofrestru ar gyrsiau penodol i sicrhau bod 'y dyn cywir yn cael y tocyn cywir'.

5.33 Adroddodd y cynghorwyr, o ran opsiynau gyrfa, fod llawer o garcharorion yn troi'n awtomatig at yr opsiynau gyrfa sy'n gwneud yr arian mwyaf, gan anwybyddu'r opsiynau a fyddai'n fwy addas iddynt, efallai. Mae hyn yn rhwystr i garcharorion gan eu bod yn ceisio cofrestru ar y cyrsiau anghywir, sy'n annhebygol o'u helpu wedi iddynt ddod allan.

> 'Mae carcharorion yn siarad llawer ac mae'n gamwybodaeth o ran opsiynau gyrfa, o ran ble mae'r arian gorau i'w wneud, ac mae hynny'n rhwystr eithaf mawr oherwydd maen nhw'n mynd am hynny yn awtomatig yn hytrach na

meddwl beth sydd orau iddyn nhw a beth sy'n cyd-fynd orau â'u math personol o sgiliau'.

Staffio

5.34 Oherwydd mai dim ond un cynghorydd Cymru’n Gweithio a geir fesul carchar, mae hyn yn cyfyngu ar y cynnig o gymorth y mae'r gwasanaeth yn gallu ei ddarparu. Mae gan bob cynghorydd lwyth achosion mawr, sy'n ceisio darparu gwybodaeth ac arweiniad i gynifer o garcharorion â phosibl cyn iddynt gael eu rhyddhau. Mae cynghorwyr Cymru’n Gweithio yn ymgysylltu â charcharorion 12 wythnos cyn iddynt gael eu rhyddhau; fodd bynnag, dywedodd un cynghorydd sut y byddai'n well ganddynt 'allu gwneud gwaith mwy helaeth efallai chwe mis cyn iddynt gael eu rhyddhau' yn y gobaith o roi'r cyfle gorau posibl i garcharorion pan gânt eu rhyddhau. Byddai hyn yn caniatáu i gynghorwyr roi arweiniad i garcharorion yn gynharach ynghylch eu dewis o addysg/hyfforddiant, gan sicrhau mai dyma'r opsiwn mwyaf addas iddynt.

> 'Mae pobl yn aml yn gofyn i mi, a fyddech chi'n elwa o gael mwy o adnoddau? Rwy'n credu mai'r hyn maen nhw'n ei olygu yw a fydden nhw'n elwa o gael mwy ohonof i. Ac ie, mewn llawer o ffyrdd, byddem.'

5.35 Yn ogystal, nododd un cynghorydd sut mae mynediad at raglenni eraill, fel ReAct a PLA, wedi cynyddu'r galw am garcharorion sydd eisiau cyrchu gwasanaeth Cymru’n Gweithio. Nododd un cynghorydd fod ganddynt saith sesiwn wedi'u trefnu, ynghyd â thair neu bedair sesiwn alw heibio. Gyda galw mor fawr, mae'n ei gwneud yn anodd darparu sesiynau arweiniad digonol i bob carcharor.

Lleoliad y Carchar

5.36 Mae gwasanaeth Cymru’n Gweithio, fel y cydnabyddir gan y cynghorwyr, weithiau yn gyfyngedig o ran ei ddull oherwydd y lleoliad y mae'n cael ei gyflwyno ynddo.

> 'Mae rhwystrau mor enfawr yn cael eu gosod gan y system gyfiawnder o ran pwy y gallant weithio gyda nhw, ble y gallant fynd, beth y gallant ei wneud, ond yn dal i geisio dod o hyd i rywbeth sy'n addas iddyn nhw o ran gyrfa ond hefyd y byddai prawf yn ei gefnogi hefyd.'

5.37 Her arall a gydnabyddir gan gynghorwyr Cymru’n Gweithio yw'r amser y mae carcharorion yn ei dreulio yn y carchar, yn enwedig i'r rhai sydd ar remánd. Hyd nes y bydd y rhai sydd ar remánd wedi cael eu treial neu eu dedfrydu, mae cynghorwyr yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallant ei ddarparu.

> 'Ar hyn o bryd, oherwydd y carcharorion sy'n cael eu rhyddhau'n gynnar [troednodyn 47], rydyn ni'n ceisio cynnwys llawer mwy nag yr oeddem yn arfer ei wneud, yn fwy na thebyg, oherwydd dydyn ni ddim yn gwybod a fyddan nhw'n cael eu rhyddhau'n gynnar, os byddwn ni'n eu gweld nhw eto'.

5.38 Un o'r rhwystrau, yn enwedig ar gyfer amgylcheddau carchar caeëdig, yw diogelwch. Os nad oes staff y carchar i symud carcharorion o gwmpas y carchar a dod â nhw oddi ar yr adenydd i'r hybiau cyflogaeth, lle mae rhai cynghorwyr Cymru'n Gweithio yn darparu'r gwasanaeth, mae carcharorion mewn perygl o golli'r cyfle i gael mynediad i'r sesiynau a ddarperir gan Cymru'n Gweithio.

5.39 Ynghyd â darparu'r gwasanaeth mewn hybiau cyflogaeth, gwyddys bod cynghorwyr Cymru'n Gweithio hefyd yn cerdded o amgylch yr adenydd yn darparu cyngor, gwybodaeth ac arweiniad. Efallai y bydd hyn yn ymddangos yn fwy ymarferol o ran ymgysylltu â charcharorion; fodd bynnag, yn aml gall fod yn anodd dod o hyd i le tawel ar gyfer ymgysylltu.

5.40 Wrth ymgysylltu â charcharorion ar yr adain, mae risg uwch y bydd rhywun yn torri ar ei draws. Yn gyntaf, mae siawns y bydd carcharorion ar adain yn gorfod bod yn gaeth i'w celloedd; ac mewn achosion felly, byddai'n rhaid tynnu'r cynghorydd o'r adain ar unwaith. Yn ail, oherwydd nad oes ganddynt fynediad i'w gliniaduron tra byddant ar yr adain, dywedodd un cynghorydd fod rhyngweithiadau 'yn gallu bod yn llawer mwy cyfyngedig weithiau oherwydd bydd yn rhaid i mi fynd yn ôl a gwirio pethau'.

> 'rydyn ni'n cael cyfnodau pan fydd carcharorion yn gaeth i'w celloedd a bydd pethau'n cael eu gosod arnom, a byddwn ni'n cael cyfundrefnau gwahanol y mae'n rhaid i ni eu dilyn. Felly, gall hynny effeithio ar ein gallu i weld ein cwsmeriaid'

### Atgyfeiriadau

5.41 Soniwyd am sesiynau cynefino yn ychydig o'r cyfweliadau. Cyflwynwyd y sesiynau hyn i bawb sy'n mynd i mewn i'r carchar. Pwrpas hyn yw sicrhau bod carcharorion yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt a'r cymorth sydd yno i 'w helpu i gyflawni eu dyheadau gyrfa ar ôl cael eu rhyddhau.

> 'Rwy'n gwneud hynny (sesiynau cynefino) bob bore Mercher, felly ni fyddai neb yn fy ngharchardai yn dweud nad oedden nhw'n gwybod amdanaf'

5.42 Mae atgyfeiriadau i Cymru'n Gweithio yn amrywio gan ddibynnu ar y carchar penodol. Mae'r cyfweliadau'n dangos y bydd Cymru'n Gweithio yn ymgysylltu â

[47] Pan fydd troseddwr yn cael ei ryddhau yn gynharach na diwedd hyd ei ddedfryd.

charcharorion mewn rhai carchardai 12 wythnos cyn iddynt gael eu rhyddhau, tra bydd eraill yn ymgysylltu â charcharorion cyn gynted â phosibl.

5.43 Roedd un cynghorydd wedi rhyngweithio â charcharor a oedd â dwy flynedd o'u dedfryd ar ôl o hyd, a hynny'n syml iawn am fod y carcharor wedi gofyn am siarad â Cymru'n Gweithio. Roedd y rhyngweithio cynnar hwn hefyd yn bwysig i gynghorydd arall oherwydd ei fod yn teimlo ei fod yn rhoi mwy o siawns iddynt gefnogi carcharorion i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

> 'rydyn ni'n ceisio dechrau ymwneud â nhw cyn gynted ag y gallwn, fel bod gennym ddigon o amser i weithio gyda nhw ac er mwyn sicrhau canlyniad iddyn nhw'.

5.44 Mewn carchar arall, nid oedd unrhyw reol benodol ynglŷn â phryd y cafodd carcharor ei atgyfeirio i gynghorydd; fodd bynnag, nodwyd bod y cynghorydd fel arfer yn cael ei atgyfeirio i'r rhai a oedd yn agosach at y farchnad lafur. Felly, roedd y rhai a oedd yn delio â phroblemau eraill, fel iechyd meddwl a digartrefedd, yn annhebygol o gael eu hatgyfeirio i Cymru'n Gweithio oherwydd bod y rhain yn faterion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw gan sefydliadau eraill.

5.45 Cydnabuwyd hefyd bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud oherwydd bod carcharorion yn siarad â'i gilydd ar yr adenydd am y gwasanaeth. Mae'r math o wasanaeth a ddarperir gan Cymru'n Gweithio yn dibynnu ar pryd y mae'r carcharor i fod i gael ei ryddhau. Awgrymodd un cynghorydd y gall y rhai y mae eu dyddiad rhyddhau'n bellach i ffwrdd fynychu sesiynau mwy, fel sesiynau ynghylch CVs; fodd bynnag, mae gwasanaethau un-i-un fel arfer yn cael eu darparu i'r rhai y mae eu dyddiad rhyddhau'n agosach (12 wythnos cyn iddynt gael eu rhyddhau).

> 'rydyn ni'n cael llawer o atgyfeiriadau gan fel "mae fy nghyd-garcharor wedi eich gweld chi ac rydych chi wedi ei helpu e gyda hyn a'r llall" '

5.46 Er gwaethaf y sôn nad oes amser atgyfeirio penodol, mae un cynghorydd yn nodi sut na fyddai'n gweld y rhai sydd wedi cael dedfrydau o garchar am oes oherwydd bod blaenoriaeth y gwasanaeth yw'r cymorth 'drwy'r giât'.

5.47 Ar ôl i garcharor gael ei atgyfeirio, disgrifiodd un cynghorydd sut, drwy gyfres o gyfweliadau, maen nhw'n dod i adnabod bwriadau'r carcharor ac yna'n dechrau hidlo allan y rhai maen nhw'n teimlo sy'n 'gwastraffu eich amser'. Mae hyn yn sicrhau bod cynghorwyr yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon ac yn ymgysylltu â'r rhai a fydd yn cymryd y cam nesaf ac yn ymgysylltu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

> 'beth rydw i'n tueddu i'w wneud gyda fy nghyfweliad cyntaf... Byddaf yn eu cadw am ryw hanner awr er mwyn iddyn nhw ddod i'm hadnabod a dydw i ddim yn

dweud, gadewch i ni siarad am arweiniad, gadewch i ni siarad am eich gyrfa ar y pwynt hwnnw, dw i’n dweud, gadewch i ni ddod i adnabod fi, gadewch i mi ddod i'ch adnabod chi a gadewch i ni weld'

**Sefydliadau trydydd parti: cyfleoedd mewnol**

5.48 Roedd cynghorwyr yn teimlo ei fod yn bwysig bod carcharorion yn gallu cael mynediad at sefydliadau trydydd parti tra y byddant yn y carchar fel y gallant baratoi eu hunain ar gyfer y nodau maen nhw am eu cyflawni pan fyddant yn cael eu rhyddhau. Er enghraifft:

> 'roedd dyn yn ddiweddar [sydd] eisiau sefydlu ei faniau bwyd ei hun. Fe wnaethon ni drefnu iddo fe fynd ar gwrs diogelwch bwyd, gwnaethon ni ffonio cyngor Casnewydd a dywedon nhw, "ie, mae lle gyda ni", felly fe wnaethon ni archebu lle iddo fe ar bob peth fel yna cyn iddo fe adael'

Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu carcharorion i gyflawni 'tocynnau' penodol sydd, pan fydd y cynghorwyr yn dod â chyflogwyr i'r carchar, yn helpu carcharorion i symud ymlaen i gael cyfweliadau yn y gobaith o sicrhau cyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

5.49 Nodwyd hefyd fod trefnu i garcharorion weithio gyda sefydliadau trydydd parti yn helpu i hybu eu hunan-barch eu hunain wrth gael mynediad at wasanaethau ar ôl cael eu rhyddhau. Ar ôl gallu cael mynediad at gyfleoedd o fewn y carchar, mae hyn yn cymell meddylfryd blaengar yn y carcharorion i barhau i gwblhau cyrsiau a fydd yn eu helpu i symud ymlaen i'r farchnad lafur a thrwyddi.

5.50 Nododd un cynghorydd sut maen nhw'n rhwydweithio â'r rhai sydd yn yr un sector oherwydd bod ganddyn nhw i gyd y nod cyffredin o sicrhau bod y carcharor yn symud ymlaen i gyflogaeth. Fodd bynnag, nid yw'r rhwydweithio hwn mor hawdd i gynghorwyr mewn carchardai i fenywod; roedd un cynghorydd yn disgrifio nad oes ganddynt staff cyflogadwyedd yn swyddfa’r carchar a oedd yn addas ar gyfer carcharorion benywaidd o Gymru. Yn lle hynny, mae’n cysylltu â staff y carchar i wneud yn siŵr bod y carcharorion wedi'u cofrestru ar y cyrsiau cywir. Nododd yr ymgynghorydd fod ganddo gyfarfod ar y gweill gyda darparwyr eraill. Roedden nhw'n gobeithio y byddai'r cyfarfod hwn yn eu helpu i gael gwell mewnwelediad a pherthynas waith gyda darparwyr sy'n dod i’r carchar.

> 'Rwy'n tueddu i gymryd cyfrifoldeb fy hun, os ydyn nhw'n dweud wrthyf fod ganddyn nhw bethau maen nhw eisiau eu gwneud tra byddan nhw yn y carchar, yna rwy'n cysylltu â staff y carchar i wneud yn siŵr eu bod wedi’u cofrestru ar y cyrsiau cywir'.

5.51 Gwasanaeth arall sy'n rhedeg mewn carchardai yw Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) [troednodyn48]. Esboniodd un cynghorydd, oni bai am Cymru'n Gweithio, na fyddai PLA yn rhedeg yn y carchardai. Mae PLA yn bwysig mewn carchardai, oherwydd nid yn unig mae'n uwchsgilio unigolion, ond mae hefyd yn bodloni gofynion y farchnad lafur.

5.52 Yn ddiddorol ddigon, esboniodd un cyfwelai sut mae ganddynt lwybrau at waith sy'n rhan o gylch gwaith awdurdodau lleol. Mae cael y cysylltiadau hyn ag awdurdodau lleol yn helpu Cymru'n Gweithio i gwmpasu ystod eang o ardaloedd yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau, pan fydd y carcharorion yn cael eu rhyddhau, bod ganddynt bartneriaid i gwmpasu'r ardaloedd hynny y maen nhw'n cael eu rhyddhau iddynt ac felly bod ganddynt gefnogaeth barhaus.

5.53 Er gwaethaf rhai gwasanaethau sy'n rhedeg mewn carchardai, tynnodd un cynghorydd ein sylw at y mynediad cyfyngedig i lawer o wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned, fel Busnes Cymru [troednodyn 49].

> 'Does dim sôn am Busnes Cymru, er enghraifft, ac eto rydyn ni'n cael llawer o bobl yn gofyn i ni am gyngor yngylch hunangyflogaeth.'

Nododd cynghorydd arall sut roedd Busnes Cymru wedi mynd i'w carchar yn bersonol o'r blaen, ond erbyn hyn, dim ond cyswllt afreolaidd ar-lein sydd ganddynt.

> 'Roeddwn i'n arfer gallu cael cynghorydd Busnes Cymru i mewn o bryd i'w gilydd i gael sgwrs am redeg busnes ac ati. Stopiodd hynny ac aeth ar-lein.'

**Sefydliadau trydydd parti: allanol**

Prawf

5.54 Fel y cydnabuwyd mewn sawl cyfweliad, prawf yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cymorth ar ôl i garcharor gael ei ryddhau. Mae gan gynghorwyr Cymru'n Gweithio wybodaeth gyfyngedig am y carcharor ac i ble y bydd yn cael ei ryddhau, o gymharu â'r gwasanaeth prawf, sy'n delio â chymorth wedi iddynt ddod allan, fel tai. Cydnabuwyd gan un o'r cynghorwyr y bydd y gwasanaeth prawf yn 'gwneud eu gorau glas i wneud yn siŵr eu bod nhw (carcharorion) [yn mynd i] ganolfannau gwaith' ac felly'n cael y cymorth y mae ei angen arnynt i atal aildroseddu unwaith y byddant yn ôl yn y gymdeithas.

> 'rydyn ni'n gweithio gryn dipyn gyda'r gwasanaeth prawf a phethau. Felly, er enghraifft, os yw rhywun yn cael ei ryddhau ac mae eisiau mynediad i rywbeth,

[48] Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn darparu dysgu hyblyg sydd wedi'i ariannu'n llawn, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb neu gyfuniad o'r ddau i gefnogi unigolion cymwys i ennill sgiliau lefel uwch.
[49] Mae Busnes Cymru yn darparu cyngor annibynnol am ddim i bobl sy'n dechrau, rhedeg a thyfu busnes yng Nghymru.

> efallai byddaf yn gwirio gyda'r gweithiwr prawf yn gyntaf neu wneud cyswllt yno a ffonio [i] gysylltu â nhw'

Cadw mewn cysylltiad ar ôl i garcharor gael ei ryddhau

5.55 O ran cynghorwyr Cymru'n Gweithio yn cadw mewn cysylltiad â'r carcharor ar ôl iddo gael ei ryddhau, roedd y cyfweliadau yn cydnabod strategaethau gwahanol. Mewn cwpl o achosion, mae cynghorwyr Cymru'n Gweithio yn parhau i gysylltu â'r carcharor ar ôl iddo gael ei ryddhau, a hynny dros y ffôn, os yw'r carcharor eisiau parhau i weithio gyda nhw. Yn ogystal, cymerodd un cynghorydd arnynt eu hunain i sicrhau ei fod yn aros mewn cysylltiad nes bod sefydliad allanol wedi dechrau ymwneud â'r carcharor.

> 'Mae gen i dri neu bedwar troseddwr rhyw ar hyn o bryd y bues i'n gweithio gyda nhw hyd at fis Ionawr ac maen nhw'n dal i gysylltu â mi nawr, sy'n wych oherwydd gallaf ddilyn a gweld beth sy'n digwydd gyda nhw, yn ogystal â gwneud gwaith gyda nhw'.

5.56 Ond, mewn achosion eraill, dywedodd cynghorwyr Cymru'n Gweithio nad ydynt yn aros mewn cysylltiad â'r carcharor ar ôl iddynt adael y carchar, yn bennaf oherwydd bod trosiant y bobl mor uchel mewn carchardai, felly byddai'n amhosibl aros mewn cysylltiad â phawb ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, ynghyd â'r rhai sy'n bwrw eu tymor yn y carchar ar hyn o bryd. Yn lle hynny, cyn i garcharorion gael eu rhyddhau o'r carchar, mae'r cynghorwyr yn cyfeirio'r carcharor i gymorth pellach gan wasanaeth Cymru'n Gweithio yn y gymuned.

> 'Fy rôl i mewn gwirionedd yw gwneud yn siŵr... maen nhw'n ymgysylltu â ni yn y gymuned, os oes angen ein cymorth arnyn nhw.'

5.57 Mae'r data o'r cyfweliadau a gasglwyd yn ystod y prosiect hwn yn awgrymu bod cadw mewn cysylltiad â'r rhai a ryddhawyd i Loegr bron yn amhosibl. Esboniodd un cyfwelai ei bod yn holl anymarferol cadw mewn cysylltiad. Canfu cyfweliadau hefyd nad oedd digon o gyllideb i gefnogi'r rhai sy'n cael eu rhyddhau yn ôl i Loegr, felly mae'r cynghorwyr yn canolbwyntio ar y rhai sy'n cael eu rhyddhau yng Nghymru.

5.58 Roedd un cyfwelai hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sefydliadau/gwasanaethau allanol eraill fel Busnes Cymru, Maximus ac Ymddiriedolaeth y Tywysog. Mae cynghorwyr Cymru'n Gweithio yn annog carcharorion i atgyfeirio eu hunain i'r sefydliadau/gwasanaethau hyn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

**Sefydliadau trydydd parti: cyllid**

5.59 Soniwyd am gyllid ReAct gan y mwyafrif o gynghorwyr Cymru'n Gweithio. Mae ReAct yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i'r rhai sy'n ceisio ail-ymuno â'r farchnad

lafur trwy gael gwared ar rwystrau a darparu cymorth grant ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol, costau teithio a gofal sy'n gysylltiedig â hyfforddiant.

5.60 Gan ddechrau yn Abertawe, ac yn llwyddo, yn ôl yr arwyddion, cyflwynwyd cyllid ReAct ar draws gweddill y carchardai yng Nghymru. Yn sgil cyflwyno'r cyllid hwn, agorwyd mwy o gyfleoedd i garcharorion ac, i lawer ohonynt, dyma eu pwynt trafod â blaenoriaeth.

5.61 Erbyn mis Ebrill 2024, roedd ReAct Plws wedi dyfarnu 120 o grantiau hyfforddiant galwedigaethol i droseddwyr/cyn-droseddwyr a ddaeth i gyfanswm o dros £110k. O ran y ddau garchar i fenywod yn Lloegr, mae ReAct Plws yn cael ei drafod gyda charcharorion benywaidd o Gymru sy'n gymwys ac yn addas.

## 6. Casgliadau

6.1 Dechreuodd rhaglen Cymru’n Gweithio mewn carchardai yn 2019 i ddarparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant ar yrfaoedd a chyflogadwyedd ym mhob un o'r carchardai diogel yng Nghymru, yn ogystal â dau garchar i fenywod yn Lloegr sy'n gartref i garcharorion o Gymru.

6.2 Mae’r dadansoddiad o ddata monitro yn awgrymu bod darpariaeth Cymru’n Gweithio mewn carchardai wedi bod yn cynyddu. Roedd cyfanswm o 2,747 o gyfnodau o gymorth rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2024, ond dechreuodd hanner y cyfnodau hyn yn ystod blwyddyn olaf 2023 i 24. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau o gyfweliadau, gyda chynghorwyr yn awgrymu bod mwy o alw. Ymddengys fod y canfyddiadau hyn yn dangos bod y gwasanaeth wedi cyflawni ei amcan 2023 i 24 o 'fwy o adnoddau i garcharau’.

6.3 Cafwyd 3,893 o ryngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un rhwng cynghorydd neu hyfforddwr cyflogadwyedd Cymru’n Gweithio a charcharor rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2024. Roedd cyfran y rhain yn ôl carchar i'w gweld yn cyd-fynd yn fras â'r adnodd Cymru’n Gweithio a ddyrannwyd, yn ôl pob golwg; roedd gan CEF Caerdydd, sef yr adnodd Cymru’n Gweithio a ddyrannwyd fwyaf, y gyfran fwyaf o ryngweithiadau wyneb i wyneb ac roedd gan CEF Eastwood Park a CEF Styal, sef yr adnodd Cymru’n Gweithio a ddyrannwyd leiaf, y gyfran leiaf o ryngweithiadau wyneb i wyneb.Canfuwyd bod cyfran y rhyngweithiadau wyneb yn wyneb un-i-un gan hyfforddwr cyflogadwyedd yn uwch yn CEF Caerdydd nag yn CEF Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc [troednodyn 50].

6.4 Mae tystiolaeth yr ymchwil yn awgrymu bod darpariaeth Cymru’n Gweithio yn amrywiol ar draws yr ystadau carchardai. Mae data monitro yn awgrymu bod cyfran y cyfnodau o gymorth lle roedd atgyfeiriad wedi'i wneud i lwybrau, fel ReAct, yn amrywio'n fawr yn ôl carchar. Yn yr un modd, awgrymodd cyfweliadau â chynghorwyr fod ymgysylltu â charcharorion yn amrywio yn ôl carchar, er y byddai cynghorwyr yn ceisio cael o leiaf un sgwrs gyda phob un o'r carcharorion, a hyn ynghynt na 12 wythnos cyn eu dyddiad rhyddhau. I lawer, gwnaed hyn trwy sesiynau cynefino lle byddai'r cynghorwyr yn rhoi trosolwg byr o'r gwasanaeth a'r cymorth y byddent yn ei gynnig, gan obeithio y bydd carcharorion yn dechrau meddwl a chreu nodau o ran yr hyn maent am ei gyflawni.

6.5 Mae'r ymchwil hon wedi darganfod llawer o agweddau cadarnhaol ar ddarparu gwasanaeth Cymru’n Gweithio mewn carchardai. Mae cymryd dull hyblyg a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill wedi galluogi cynghorwyr i addasu'r gwasanaeth i weddu i anghenion penodol y carcharorion, wrth hefyd eu hatgyfeirio'n

[50] Effeithiwyd ar hyn gan y ffaith nad oedd unrhyw ryngweithiadau â hyfforddwyr cyflogadwyedd yn CEF Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc yn 2022-23.

llwyddiannus i raglenni addas eraill, fel PLA ac ReAct Plws , a fydd yn helpu carcharorion i gyflawni eu nodau yn y dyfodol a chefnogi’r broses o’u hintegreiddio yn ôl i gymdeithas ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Canfuwyd bod atgyfeiriadau at ReAct Plws yn cynyddu, ond gwelir amrywiaeth fawr yn ôl carchar. Canfuwyd yn yr wybodaeth fonitro fod y carchardai hynny y dyrannwyd yr adnoddau Cymru’n Gweithio lleiaf iddynt (sef CEF Eastwood Park, CEF Styal a CEF Brynbuga) wedi cael y gyfran fwyaf o gyfnodau o gymorth gydag atgyfeiriad wedi'i wneud i'r rhaglen.

6.6 Er gwaethaf y darlun cadarnhaol a roddwyd o'r gwasanaeth, mae sawl her wrth ddarparu gwasanaeth Cymru’n Gweithio mewn carchardai wedi'u nodi, gan gynnwys mynediad i wasanaethau TG, adnoddau cynghorwyr, carcharorion yn gorfod bod yn gaeth i’w celloedd yn yr adenydd a chymhellion y carcharorion eu hunain. Er y profwyd bod darparu'r gwasanaeth wedi helpu'r cynghorwyr i gasglu gwybodaeth fanylach am garcharor o gymharu â'r rhai yn y gymuned, mae hefyd wedi bod yn anodd dod o hyd i leoedd preifat a thawel i weithio. Roedd llawer o gynghorwyr yn myfyrio ar orfod darparu'r gwasanaeth ar adenydd carchardai oherwydd nad oedd ganddynt le penodol. Er y gall mynd am dro o gwmpas adenydd fod yn ddefnyddiol wrth hysbysebu brand Cymru’n Gweithio a chefnogi cynifer o garcharorion â phosibl, nid yw'n ofod cyfrinachol ar gyfer cefnogi carcharorion. Ar ben hynny, gall fod mynediad cyfyngedig i rai gwasanaethau sydd ar gael i wasanaeth ehangach Cymru’n Gweithio, fel Busnes Cymru.

6.7 Ynghyd â'r heriau wrth ddarparu'r gwasanaeth, amlygwyd ymgysylltu â grwpiau penodol fel her, yn enwedig carcharorion ifanc a charcharorion ag euogfarn rywiol. Ar gyfer carcharorion ifanc, ymrwymodd Llywodraeth Cymru, yn y Cynllun ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau, i wneud y Warant i Bobl Ifanc yn hygyrch i'r rhai yn y carchar. Mae her ychwanegol o gael y garfan hon i ymgysylltu â'r gwasanaeth yn y gymuned ar ôl cael eu rhyddhau. I'r rhai sydd ag euogfarn rywiol, mae'n bwysig teilwra cymorth i gydnabod pa gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael a pha effaith y bydd cyfyngiadau yn ei chael ar opsiynau cyflogaeth, ac annog cyfranogiad mewn cyrsiau perthnasol yn hytrach na dim ond cwblhau cynifer o gyrsiau a hyfforddiant â phosibl.

6.8 Roedd y gwasanaeth mewn carchardai i fenywod yn fwy cyfyngedig o gymharu â charchardai i ddynion, yn bennaf oherwydd bod cynghorwyr yn ymweld yn fisol yn unig ac mae argaeledd opsiynau hyfforddi yn gyfyngedig. Canfuwyd bod cyfran y cyfnodau o gymorth yn y carchar sy'n cael eu darparu i fenywod yn cael eu tangynrychioli ychydig o gymharu â'r gyfran ym mhoblogaeth carcharorion Cymru. Fodd bynnag, mae cymorth Cymru’n Gweithio mewn carchardai i fenywod yn ddatblygiad diweddar, ac mae'n cynnwys cynghorydd yn teithio i Loegr. Er nad oeddent yn cael ymweliadau rheolaidd, roedd y carcharorion benywaidd o Gymru

yn gwerthfawrogi'r cymorth a phresenoldeb gan rhywun o Gymru a oedd yn dod i'r carchar.

6.9 Mae'r ymchwil hon hefyd wedi archwilio'r berthynas rhwng Cymru'n Gweithio a sefydliadau trydydd parti eraill. Canfuwyd bod gan Cymru'n Gweithio bartneriaeth gref gyda sefydliadau eraill yn y yn ogystal â staff y carchardai, a lle mae'r cysylltiad hwn ychydig yn wannach, soniwyd am gael cyfarfodydd dros dro i feithrin dealltwriaeth gryfach o'r hyn y mae pawb yn ei gynnig fel bod carcharorion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cywir. Yn allanol, prif drobwynt yr ymgynghorydd oedd tuag at y gwasanaeth prawf, sy'n llwyddo i gefnogi'r rhai a ryddheir i'r gymuned.

6.10 Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall cadw mewn cysylltiad â charcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau fod yn anodd oherwydd trosiant uchel ymhlith carcharorion. Fodd bynnag, canfuwyd bod rhai cynghorwyr wedi cadw mewn cysylltiad â charcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, a hynny dros y ffôn, lle roedd carcharorion eisiau parhau i weithio gyda nhw. I'r carcharorion hynny a ryddhawyd yn ôl i Loegr, er gwaethaf y ffaith iddynt gael cymorth yn y carchar a chael llawer o'r un cyfleoedd â'r carcharorion o Gymru, ar wahân i fynediad i gyllid ReAct, roedd bron yn amhosibl i gynghorwyr gadw mewn cysylltiad â nhw a gweld eu cynnydd.

6.11 Roedd yr ymchwil ond yn gallu dadansoddi data canlyniadau ar gyfer carcharorion sydd wedi ail-ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio neu lle mae gwybodaeth yn dod i law gan sefydliad partner. Roedd y rhain yn cyfrif am lai na thraean o gyfnodau o gymorth â statws chwe mis ar ôl i'r carcharorion adael. Roedd hyn oherwydd na chafwyd unrhyw waith cyson i ddal canlyniadau ar gyfer holl ddefnyddwyr gwasanaeth Cymru'n Gweithio mewn carchardai. Felly, dim ond fel mewnwelediad rhannol i ganlyniadau y gellir defnyddio'r dadansoddiad a gynhaliwyd. Yn seiliedig ar y dadansoddiad a gynhaliwyd, y canlyniad a gofnodwyd amlaf chwe mis yn ddiweddarach, yn dilyn cyfnod o gymorth yn y carchar, oedd bod yn ddi-waith. Dim ond 14% a ddywedodd eu bod yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig chwe mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiad o'r adolygiad llenyddiaeth, sef bod carcharorion yn cael trafferth cael gwaith. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yr is-sampl hon yn seiliedig ar y rhai sydd wedi ail-ymgysylltu â'r gwasanaeth neu sefydliadau partner eraill, ac felly mae'n debygol o fod yn gynrychiolaeth ragfarnllyd ac nid yw'n gyffredinoladwy. Serch hynny, mae'r canfyddiadau'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at yr heriau wrth helpu carcharorion i 'fod yn barod am swyddi a chael cyflogaeth gynaliadwy a'i chadw', fel y nodir yn ' Gwell Dysgu, Gwell Cyfleoedd: darparu cyfleoedd dysgu a sgiliau mewn carchardai yng Nghymru'.

## 7. Argymhellion

7.1 Gwneir yr argymhellion canlynol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil:

7.2 **Argymhelliad 1:** Adolygu adnoddau Cymru'n Gweithio ar draws carchardai mewn ymateb i dystiolaeth o alw cynyddol a llwythi achosion mawr. Dylai hwn fod yn adolygiad mwy manwl, sy'n adeiladu ar y canfyddiadau yn y gwerthusiad hwn ac yn creu proffil fesul carchar. Dylai hefyd ystyried pryd sydd orau i ymgysylltu â charcharorion (h.y. ai 12 wythnos cyn i garcharor gael ei ryddhau yw'r adeg gywir).

7.3 **Argymhelliad 2:** Er mwyn sicrhau bod cynghorwyr yn gallu darparu'r gwasanaeth yn effeithiol, mae angen gweithio gyda'r ystâd carchardai i fynd i'r afael â chyfyngiadau ymarferol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw gwifrau yn croesi desgiau, sy'n bryder diogelwch, a chael mannau gosod i sicrhau cyfrinachedd ar gyfer cynghori carcharorion. Dylai Gyrfa Cymru hefyd ystyried y ffordd orau i staff gadw cofnodion mewn carchardai oherwydd bod llawer o amser yn cael ei dreulio ar hyn o bryd ar deipio nodiadau ysgrifenedig a gymerwyd ar adenydd.

7.4 **Argymhelliad 3:** Gwneud defnydd pellach o rwydweithio â sefydliadau eraill ac atgyfeiriadau i raglenni addas eraill, megis PLA a ReAct Plws , sy'n ennyn diddordeb carcharorion mewn cymorth cyflogadwyedd ac yn eu huwchsgilio. Ar ben hynny, er mwyn cyflwyno mwy o gyfleoedd i garcharorion, dylai Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru weithio gyda sefydliadau/gwasanaethau, fel Busnes Cymru, i ddarparu eu gwasanaethau i garchardai yn rheolaidd.

7.5 **Argymhelliad 4:** Ystyried arferion gorau ar sut i gefnogi'r carcharorion hynny a nodwyd yn yr ymchwil hon fel y rhai mwyaf anodd i ymgysylltu â nhw, sy'n cynnwys carcharorion ifanc a charcharorion ag euogfarn rywiol. Bydd angen i hyn ystyried ffyrdd o oresgyn pwysau cymdeithasol fel rhwystr i garcharorion ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gosod disgwyliadau ar gyfer carcharorion sydd ag euogfarn rywiol.

7.6 **Argymhelliad 5:** Ystyried dulliau i ddal canlyniadau i'r rhai sydd wedi cael cymorth gan wasanaeth Cymru'n Gweithio yn y carchar. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cael ei gasglu yn barhaus, gan Gyrfa Cymru, gan yr holl garcharorion sydd wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth; fodd bynnag, cydnabyddir efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd adnoddau. Felly, gellid archwilio opsiynau amgen gan gynnwys casglu data, megis astudiaeth hydredol neu arolwg ciplun, neu ddefnyddio data sydd eisoes yn bodoli, megis gyda chysylltiad data (e.e. gallai hyn gynnwys defnyddio canolfan deallusrwydd data Gyrfa Cymru).

**Cyfeiriadau**


Atherton, P a Buck, G (2021) Employing with conviction: The experiences of employers who actively recruit criminalised people. Probation Journal, 68(2), 186-205.

Braun, V a Clarke, V (2006) Using thematic analysis in psychology. Qualitative Research in Psychology, 3(2), 77-101.

Byrne, D (2021) A worked example of Braun and Clarke's approach to reflexive thematic analysis. Quality and Quantity, 56, 1391-1412.

Gyrfa Cymru (2024) Cyfrifon Dysgu Personol. Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

Cassidy, S a Howard, M (2023) Empirical review of the Pathways to Employment (P2E) pilot for women in prison. Corrections Research Evaluation and Statistics, Llywodraeth y Deheubarth Newydd. Cyhoeddiad Ymchwil Rhif 68/ ISSN 2207-0826

Cunniffe, C; Kerckhove, R; Williams, K Hopkins, K (2012) Estimating the prevalence of disability amongst prisoners: results from the Surveying Prisoner Crime Reduction (SPCR) survey. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Dar, A (2018). Using semi-structured interviews to explore employer attitudes towards recruiting ex-offenders. Prifysgol Fetropolitan Manceinion. (heb ei gyhoeddi)

Ellison, M., Szifris, K., Horan, R., a Fox, C. (2017). Asesiad Tystiolaeth Gyflym o effeithiolrwydd addysg carchardai wrth leihau ailadrodd a chynyddu cyflogaeth. Probation Journal, 64(2), 108-128.

Gilbert, J, Elley, B a Best, T (2019) Second chances: a report on employing offenders in Canterbury. Independent Research Solutions.

Hawley, J., Murphy, I., a Souto-Otero, M. (2013) Prison education and training in Europe. GHK Consulting, y Comisiwn Ewropeaidd.

Hernandez, S (2019) Implementing educational courses on social media within prisons to decrease unemployment rates among ex-prisoners and reduce recidivism in the United States. Cyhoeddiadau Myfyrwyr Prifysgol Regis (casgliad cynhwysfawr). 935.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (2024) Cynllun Lleihau Aildroseddu ar gyfer Cymru 2022-25

Tŷ'r Cyffredin (2022) Not just another brick in the wall: why prisoners need an education to climb the ladder of opportunity. Y Pwyllgor Addysg, Adroddiad Cyntaf Sesiwn 2022-23.

Jones, R (2024) 2023 Factfile: Prisons and Sentencing in Wales: Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd.

Leone, P a Wruble, P (2017) Prison Education Maximising the potential for employment and successful community reintegration. Sefydliad Abell, The Abell Report, 30(6).

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012) Prisoner employment, training and skills Y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol. PSI 06/2012

Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Llywodraeth Cymru (2018) Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru Tystiolaeth atodol Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru - Addysg a Chyflogaeth.

Llywodraeth Cymru (2022) Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau

Llywodraeth Cymru (2024) Busnes Cymru

Cymru'n Gweithio (2024) ReAct Plws. Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

**Atodiad A: Protocol adolygu llenyddiaeth**

# Gwerthusiad o Cymru’n Gweithio mewn carchardai

# Protocol Adolygu Llenyddiaeth

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r broses adolygu llenyddiaeth arfaethedig a fydd yn elfen allweddol o'r ymchwil i wasanaeth Cymru’n Gweithio mewn carchardai. Mae'r ddogfen hon yn archwilio’r canlynol:

- Nodau ymchwil allweddol,
- y dull ymchwil,
- a'r broses adolygu llenyddiaeth gyffredinol.

## Nodau’r Ymchwil

Nod yr ymchwil hon yw deall yn well pa mor effeithiol yw gwasanaeth Cymru'n Geithio mewn chwe charchar i ddynion ledled Cymru (Brynbuga, Prescoed, Caerdydd, Abertawe, Berwyn a Parc) a dau garchar i fenywod yn Lloegr (Styal ac Eastwood) Park sy'n carcharu menywod o Gymru. Bydd yr ymchwil yn canolbwyntio ar sut mae'r gwasanaeth yn wahanol rhwng carchardai ac unrhyw heriau neu rwystrau wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae'r cwestiynau ymchwil allweddol fel a ganlyn:

1. I ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu fel yr amlinellir yn amcanion Cymru’n Gweithio?
2. Pa heriau y mae’r gwasanaeth yn eu hwynebu, os o gwbl?
3. A yw'r heriau hyn yn wahanol yn ôl carchar?
4. Sut mae atgyfeiriadau a chanlyniadau yn wahanol rhwng carchardai? Beth yw'r tueddiadau?
5. Pa gyswllt sydd gan y gwasanaeth gyda sefydliadau trydydd parti, os o gwbl?

## Dull

Er mwyn ymateb i'r cwestiynau ymchwil, bydd ystod o ddata yn cael ei gasglu. Bydd hyn yn cynnwys:

- Adolygiad llenyddiaeth byr sy'n tynnu ar dystiolaeth o Gymru'n Gweithio a chymorth cyflogadwyedd arall mewn carchardai i ddynion a menywod.

- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda chynghorwyr Cymru’n Gweithio mewn carchardai i ddeall y gwasanaeth yn well a chael gwybod sut mae'n wahanol ar draws y carchardai.
- Dadansoddiad graddfa fach o ddata meintiol.

Mae'r is-adrannau isod yn manylu ar y prosesau sy'n gysylltiedig â'r adolygiad llenyddiaeth.

Termau Chwilio

Bydd termau chwilio a ddefnyddir i hidlo peiriannau chwilio a phyrth ymchwil yn systematig yn cynnwys y canlynol:

**Termau allweddol**

- Cymru’n Gweithio
- Gwerthusiad o Cymru’n Gweithio
- Arweiniad Cymru’n Gweithio
- Cymru’n Gweithio mewn carchardai
- Gwasanaethau cyflogadwyedd
- Gwasanaethau cyflogadwyedd mewn carchardai
- Arweiniad cyflogadwyedd ar gyfer troseddwyr
- Arweiniad cyflogadwyedd ar gyfer cyn-droseddwyr ar ôl iddynt gael eu rhyddhau

Sgrinio

Unwaith y bydd y chwiliad wedi'i gwblhau, bydd deunydd a allai fod yn berthnasol yn cael ei sgrinio yn erbyn y meini prawf cynnwys ac eithrio wedi'u diffinio ymlaen llaw a amlinellir isod.

Meini prawf cynhwysiant

- Astudiaethau sy'n canolbwyntio ar ddarparu rhaglenni cyflogadwyedd/arweiniad gyrfa a gyflwynir mewn carchardai yng Nghymru neu'r DU ehangach.
- Astudiaethau sy'n canolbwyntio ar ddarparu rhaglenni cyflogadwyedd/arweiniad gyrfa a gyflwynir y tu allan i garchardai yng Nghymru neu'r DU ehangach.
- Astudiaethau sy'n canolbwyntio ar y berthynas rhwng dulliau darparu Cymru’n Gweithio a gwasanaethau cyflogadwyedd eraill ledled Cymru.
- Astudiaethau sy'n darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd gwasanaeth Cymru’n Gweithio ar garcharorion sy'n cael eu rhyddhau'n ôl i Gymru.
- Astudiaethau sy'n nodi cymhariaeth rhwng y rhywiau wrth ddarparu arweiniad cyflogadwyedd/gyrfaoedd mewn carchardai.

Meini prawf eithrio

Er mwyn sicrhau bod y llenyddiaeth yn parhau i fod yn glir ei ganolbwynt, bydd y canlynol yn cael eu heithrio:

- Tystiolaeth feddal (h.y. sylwebaeth sylfaenol neu dystiolaeth anecdotaidd).

- Astudiaethau nad ydynt wedi'u cyhoeddi yn Gymraeg na Saesneg.
- Astudiaethau a gyhoeddwyd cyn 2010.
- Astudiaethau o lyfrau cyfan neu waith arall o hyd cyfatebol. Hefyd, astudiaethau o erthyglau papur newydd, erthyglau blog, erthyglau golygyddol / darnau barn ac erthyglau mewn cylchgronau.

Cofnodi'r dystiolaeth

Er mwyn sicrhau bod y chwiliad yn gynhwysfawr ac yn dryloyw, ar gyfer pob darn o dystiolaeth, byddaf yn cofnodi'r canlynol mewn taflen excel:

- Teitl
- Awdur(on):
- Math o gyhoeddiad
- Dyddiad cyhoeddi
- Gwlad/Rhanbarth ffocws
- Crynhoad/Crynodeb gweithredol
- Dyluniad/methodoleg yr ymchwil
- Cyfyngiadau
- Dolen
- Perthnasedd - Bydd y llenyddiaeth yn cael sgôr o 1 i 3 yn seiliedig ar ei pherthnasedd i'r prosiect ymchwil.

Echdynnu Data

Yna bydd llenyddiaeth sydd wedi'i sgrinio yn erbyn y meini prawf cynhwysiant sydd wedi'u diffinio ymlaen llaw yn cael ei hadolygu, gydag unrhyw wybodaeth am ddulliau arferion gorau yn cael ei thynnu. Bydd y gwaith o echdynnu data hefyd yn cynnwys gwybodaeth gefndir i sicrhau bod gwybodaeth gyd-destunol yn cael ei chadw.

**Atodiad B: Gwybodaeth dechnegol yr wybodaeth fonitro**

**Newidynnau cyfnodau o gymorth**

- identifier
- episode_type
- case_id
- customer
- joined_date
- closed_date
- referral source
- referral_by_org
- status_at_joining
- joining_postcode_ward
- joining_postcode_la
- rural_urban_2011_indicator_name
- oac_2011_subgroup
- oac_2011_group
- oac_2011_supergroup
- age_group_detail
- ethnicity
- gender
- is_disabled
- home_language
- highest_qual_level
- preferred_language_verbal
- preferred_language_written
- current_status
- current_status_start_date
- circ_forced_migrant
- circ_forced_migrant_origin_country
- repeat_joiner_within_year
- circ_in_custody
- circ_probation
- one_to_one_count
- one_to_one_duration
- cwc_support_count
- cwc_support_duration
- advocacy_liaison_count
- advocacy_liaison_duration
- interactions_in_person_count
- interactions_telephone_count
- interactions_email_count
- interactions_text_count
- interactions_webchat_count
- interactions_letter_count
- interactions_video_count
- interactions_messaging_service_count
- interactions_webinar_count
- interactions_whatsapp_count
- careers_adviser_interactions
- employment_coach_interactions
- other_role_interactions
- latest_in_person_interaction_date
- latest_in_person_interaction_venue
- latest_in_person_interaction_venue_postcode
- status_6_months_after_leaving
- referrals_access
- referrals_apprenticeship
- referrals_business_wales
- referrals_citizens_advice
- referrals_college
- referrals_college_pla
- referrals_cfw_plus
- referrals_employability_coaching
- referrals_employability_skills_programme
- referrals_employment
- referrals_engagement
- referrals_esf_project
- referrals_event
- referrals_housing_support
- referrals_jcp_youth_journey
- referrals_jgw_plus_advancement
- referrals_jgw_plus_advancement
- referrals_jgw_plus_advancement

- referrals_jobcentre_plus
- referrals_jgw_legacy
- referrals_learning_training_provider
- referrals_level_1
- referrals_la_provision
- referrals_other
- referrals_pace
- referrals_prison_project
- referrals_react_iii
- referrals_react_plus
- referrals_self_help
- referrals_skills_to_succeed
- referrals_social_services
- referrals_summer_sorted
- referrals_support_agency
- referrals_uk_enic
- referrals_union
- referrals_university
- referrals_voluntary_work
- referrals_youth_service

**Newidynnau rhyngweithiadau**

- interaction_id
- case_id
- channel_of_interaction
- type_of_interaction
- time_spents_mins
- date_of_interaction
- interaction_id
- interaction_venue_postcode
- delivered_by

**Cymhariaeth o ffigurau o adroddiadau blynyddol Gyrfa Cymru ac o'r dadansoddiad o'r wybodaeth fonitro a ddarparwyd ar gyfer yr adroddiad ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru**

**Tabl B.1: Nifer y cyfnodau o gymorth yn ôl blwyddyn**

| **Statws** | **2021 i 22** | 2022 i 23 | **2023 i 24** |
|---|---|---|---|
| Adroddiad blynyddol Gyrfa Cymru | 366 | 949 | 1,363 |
| Adroddiad ymchwil Llywodraeth Cymru | 424 | 954 | 1,369 |

Ffynonellau: Adroddiadau blynyddol Gyrfa Cymru[51] – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio

[51] Gyrfa Cymru adroddiad blynyddol 2021-2022, Gyrfa Cymru adroddiad blynyddol 2022-2023 & Gyrfa Cymru adroddiad blynyddol 2023-2024.

**Tabl B.2: Nifer y rhyngweithiadau yn ôl blwyddyn**

| **Statws** | 2022 i 23 | **2023 i 24** |
|---|---|---|
| Adroddiad blynyddol Gyrfa Cymru | 1,463 | 2,643 |
| Adroddiad ymchwil Llywodraeth Cymru | 1,631 | 2,869 |

Ffynonellau: Adroddiadau blynyddol Gyrfa Cymru[52] – Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio

**Cymhariaeth o'r statws 6 mis ar ôl gadael categorïau yng ngwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio a'r rhai a ddefnyddir yn yr adroddiad ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru**

[52] Gyrfa Cymru adroddiad blynyddol 2021-2022, Gyrfa Cymru adroddiad blynyddol 2022-2023 & Gyrfa Cymru adroddiad blynyddol 2023-2024.

**Tabl B.3: Statws 6 mis ar ôl gadael cyfnod o gymorth - categorïau**

| Categori gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio | Categori adroddiad ymchwil Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Hyfforddiant i oedolion | Rhaglen gyflogadwyedd neu sgiliau arall LlC |
| Statws cyfredol anhysbys | Statws cyfredol anhysbys |
| Segur | Segur |
| Addysg bellach amser llawn | Addysg bellach |
| Addysg uwch | Addysg uwch |
| Ymgysylltu â Twf Swyddi Cymru+ | Rhaglen gyflogadwyedd neu sgiliau arall LlC |
| Swydd amser llawn, dim hyfforddiant ffurfiol | Cyflogedig |
| Swydd amser llawn gyda hyfforddiant ffurfiol | Cyflogedig |
| Swydd ran-amser, dim hyfforddiant ffurfiol | Cyflogedig |
| Swydd ran-amser gyda hyfforddiant ffurfiol | Cyflogedig |
| Heb ei gyflogi – wrthi'n chwilio am waith | Yn ddi-waith |
| Heb ei gyflogi – ddim ar gael i ddechrau gweithio | Ddim ar gael ar gyfer addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| Heb ei gyflogi – ddim ar gael i ddechrau gweithio | Economaidd anweithgar |
| Y tu allan i Gymru | Yn byw y tu allan i Gymru |
| Hunangyflogedig | Hunangyflogedig |
| Gwaith gwirfoddol | Gwaith gwirfoddol |

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio

Sylwer, mae hyn yn dangos dim ond y categorïau hynny a ddewiswyd (h.y. â gwerth o 1 neu fwy) ac nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r holl gategorïau sydd ar gael.

**Atodiad C: Cynllun cyfweliad**

1. Cwestiynau cefndir:
    a. Ers faint rydych chi'n gweithio ym maes cyflogadwyedd?
    b. Ers faint rydych chi wedi bod yn gynghorydd Cymru'n Gweithio?
    c. Ers faint rydych chi'n darparu cymorth mewn carchardai?
2. Beth yw eich rôl fel cynghorydd gyrfa/hyfforddwr cyflogadwyedd?
    a. Ydych chi'n darparu cymorth mewn carchardai i ddynion a charchardai i fenywod?
3. Beth yw prif anghenion cymorth y troseddwyr sy'n defnyddio gwasanaeth Cymru'n Gweithio?
    a. (a oes unrhyw rwystrau sy'n atal troseddwyr rhag cael mynediad i Cymru'n Gweithio yn y carchar?)
4. Sut ydych chi'n darparu gwasanaeth Cymru'n Gweithio?
    a. A fyddech chi eisiau newid unrhyw beth am ddarparu'r gwasanaeth?
    b. Sut ydych chi'n teilwra darpariaeth Cymru'n Gweithio i weddu i anghenion troseddwyr?
    c. (a yw'r gwasanaeth presennol yn defnyddio'r adnoddau yn dda?)
    d. (beth sy'n werthfawr am y gwasanaeth hwn?)
        i. (sut mae'r gwasanaeth yn wahanol i eraill-sut mae eu cynnig mewn carchardai yn wahanol i Maximus yn ymarferol?)
5. Pa mor aml ydych chi'n mynd i'r carchardai?
    a. Pa mor hir ydych chi'n ei dreulio gyda phob troseddwr?
        i. I ba raddau y mae hyn wedi'i dargedu neu ei orfodol?
    b. A yw hyn yn wahanol?
    c. Os yw'n wahanol, pam ydych chi'n treulio mwy o amser gydag unigolion penodol/mewn gwahanol garchardai?
    d. (gan ddibynnu ar yr ateb i 2a) Sut mae hyn yn wahanol rhwng carchardai i ddynion a charchardai i fenywod?
    e. (a oes unrhyw grwpiau troseddwyr sy'n anoddach i chi ymgysylltu â nhw mewn carchardai?)
6. Pryd ydych chi'n dechrau rhyngweithio â'r troseddwyr? /Pryd mae troseddwyr yn cael eu cyfeirio atoch chi?
    a. Sut mae hyn yn wahanol rhwng troseddwyr?
    b. Sut mae hyn yn wahanol rhwng troseddwyr?
7. Pa mor dda ydych chi'n teimlo bod darpariaeth Cymru'n Gweithio yn cydweddu ag anghenion troseddwyr?
    a. Sut rydych chi'n newid y ffordd rydych chi'n rhyngweithio â gwahanol droseddwyr?
    b. A yw gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi newid ers iddo ddechrau mewn carchardai yn 2019?

        i. Os felly, sut, a beth a ysgogodd hyn, yn eich barn chi?
        ii. A oedd hyn i weddu i anghenion troseddwyr?

8. Pa rwystrau, os o gwbl, ydych chi'n eu hwynebu wrth ddarparu Cymru'n Gweithio yn y carchar?
    a. A yw'r rhain yn wahanol yn ôl y carchar?
    b. A yw'r rhain yn wahanol yn ôl nodweddion troseddwyr?
    c. Pa rwystrau eraill ydych chi'n eu hwynebu?
    d. (Sut rydych chi'n meddwl y gallwch chi oresgyn y rhwystrau hyn?)
9. A oes gennych chi gysylltiad â sefydliadau trydydd parti tra bod troseddwyr yn y carchar ac os felly, pwy?
    a. Sut rydych chi'n gweithio gyda'r rhain?
10. Oes gennych chi gysylltiad â sefydliadau trydydd parti allanol rydych chi'n cyfeirio troseddwyr atynt pan fyddant yn gadael y carchar, ac os felly, pwy?
    a. Os oes, pa mor hir ydych chi'n cadw mewn cysylltiad?
        i. A yw hyn yn caniatáu i chi weld cynnydd y troseddwyr ar ôl iddynt adael y carchar? (Sut rydych chi'n gwybod bod y gwaith rydych chi'n ei wneud yn gweithio?)
            1. (os nad ydyn nhw'n gwneud hynny, beth maen nhw'n meddwl y gallant ei wneud?)
        ii. (cymorth parhaus ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau)
    b. Sut mae hyn yn wahanol rhwng y rhai sy'n aros yng Nghymru ar ôl cael eu rhyddhau a'r rhai sy'n cael eu rhyddhau yn Lloegr?